

**Arolygiad o dan Adran 28 o
Ddeddf Addysg 2005**

**Ysgol Brynrefail
Llanrug
Gwynedd
LL55 4AD**

Rhif yr Ysgol: 6614004

Dyddiad yr Arolygiad: 06/11/06

gan

**Gareth Wyn Roberts
17166**

Dyddiad Cyhoeddi: 11/01/07

Dan rif contract Estyn: 1200206

Ⓜ Argraffydd a Rheolwr y Frenhines Llyfrfa Ei Mawrhydi 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd hwn fel a enwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl heb fod yn fwy na chost atgynhyrchu ar eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Brynrefail fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Brynrefail rhwng 06/11/06 a 10/11/06. Comisiynwyd yr arolygiad, gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweinwyd gan Gareth Wyn Roberts. Comisiwynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae yna dri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, mae yna adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, nid oes adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, mae adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, mae adroddiadau ar yr holl bynciau hefyd.

Mae Estyn yn penderfynu ar y math o arolygiad a gaiff ysgol, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Caiff pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u huno arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad safonol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac yn y blaen. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13	B14
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18	18-19

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	3
Argymhellion	10
Safonau	11
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	11
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	20
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	20
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	26
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	29
Arweinyddiaeth a rheolaeth	34
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	34
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	37
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	39
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	41
Cymraeg iaith cyntaf	41
Saesneg	44
Gwyddoniaeth	46
Daearyddiaeth	48
Celf	51
Cerddoriaeth	53
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	55
Atodiadau	56
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	56
2 Data a dangosyddion ysgol	57
3 Canlyniadau asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol	58
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	61
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	62

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion a myfyrwyr 11-18 oed a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol Awdurdod Unedig Gwynedd yw Ysgol Brynrefail, Llanrug. Mae ynddi 617 o ddisgyblion o flwyddyn 7 i flwyddyn 11, a 107 myfyriwr ym mlwyddyn 12 a 13 (Y Chweched Dosbarth). Mae nifer y disgyblion a'r myfyrwyr wedi cynyddu o tua 100 ers yr arolygiad diwethaf ac mae disgwyl i'r niferoedd barhau i gynyddu'n raddol yn ystod y blynyddoedd i ddod.
2. Mae'r ysgol ym mhentref Llanrug, Sir Gwynedd. Mae Llanrug ar y ffordd rhwng Caernarfon a Llanberis. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion a'r myfyrwyr o ddalgylch yr ysgol, sef o Lanrug a phentrefi a'r ardal wledig o gwmpas. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion o ardaloedd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd neu gymdeithasol. Er mai dim ond 6% o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru i fod â'r hawl i brydau ysgol yn rhad ac am ddim, mae 44% o fyfyrwyr y chweched dosbarth yn derbyn lwfans cynhaliaeth. Mae bron pob un o'r disgyblion a'r myfyrwyr yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am dri disgybl.
3. Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 21 o'r disgyblion (3.4%) ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yr un fath â'r ganran genedlaethol. Nid addaswyd y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Datgymhwyswyd dau ddisgybl arall o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn ogystal, mae 81 o ddisgyblion (sef 13%) ar gamau 'gweithredu ysgol' a 'gweithredu ysgol a mwy' y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig.
4. Daw 65% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref a 35% o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae 98% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Gwna'r ysgol drefniadau arbennig ar gyfer yr ychydig hwyrdyfydiaid. Defnyddia'r ysgol y Gymraeg fel prif gyfrwng addysgu ar gyfer mwyafrif helaeth disgyblion cyfnod allweddol 3 ond mae dewis agored i ddisgyblion ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.
5. Arolygwyd yr ysgol yn flaenorol yn ystod tymor y Pasg 2001. Arolygiad 'safonol', sef un pan gaiff chwe phwnc eu harolygu, yw'r arolygiad a dderbyniodd yr ysgol ym mis Tachwedd 2006.
6. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym 1998.

7. Darpara coleg addysg bellach wasanaeth addysgu sgiliau gwledig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 ac mae'r ysgol hefyd yn cydweithio gyda choleg addysg bellach ac ysgol uwchradd gyfagos i gynnig cyrsiau galwedigaethol. Cydweithreda ysgolion uwchradd Arfon efo'i gilydd, gydag asiantaethau allanol a chyda'r brifysgol, i ddarparu cyrsiau ar y cyd ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8. Prif flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2005-2007 yw'r canlynol:
- adolygu dulliau dysgu ac addysgu a chynlluniau gwaith a gwersi;
 - hyrwyddo ymddygiad da a chynhwysiad cymdeithasol;
 - codi safonau a lleihau baich gwaith athrawon yn unol â'r cytundeb cenedlaethol;
 - parhau i ddatblygu adeiladau;
 - datblygu ymhellach hunan arfarnu ysgol gyfan ac adrannol;
 - ymateb i'r twf yn y niferoedd sy'n mynychu'r ysgol a'r toriadau cyllidol;
 - ymdrin â datblygiadau ar gyfer myfyrwyr ôl-16;
 - gweithredu ail-strwythuro'r gweithlu yn ôl gofynion statudol.

9. Targedau meintiol yr ysgol ar gyfer 2007 yw'r canlynol:

Dangosyddion cyfnod allweddol 3	% ar lefel 5 neu fwy yn yr ysgol
Cymraeg	82
Saesneg	75
Mathemateg	78
Gwyddoniaeth	80
Dangosydd pynciau craidd	70

Dangosyddion cyfnod allweddol 4	% yn ennill y cymhwyster
5 pwnc TGAU yn ennill gradd A*-C	68
5 pwnc TGAU yn ennill gradd A*-G	92
Dangosydd pynciau craidd	50
% yn gadael yn ddigymhwyster	0
%absenoldebau anawdurdodedig	0.2

Crynodeb

10. Mae agweddau da neu dda iawn ym mhob agwedd o ddarpariaeth yr ysgol; mae cyfle cyfartal a'r gofal ar gyfer y disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagorol. Mae'r safonau a gyflawna'r disgyblion yn y dosbarth yn dda neu'n rhagorol ac yn adlewyrchu'u hymddygiad a'u hagwedd tuag at waith. Mae canlyniadau arholiadau ac asesiadau allanol yn cymharu'n dda neu dda iawn â rhai'r sir a Chymru gyfan ac yn dda yn ôl nifer o fesuryddion eraill.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	3*
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

** Bu'n rhaid dyfarnu gradd 3 i gwestiwn allweddol 3 gan nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofyn statudol i ddarparu addysg grefyddol ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth.*

11. Mae'r graddau yn y tabl uchod yn cytuno â'r graddau yn nogfen hunan arfarnu'r ysgol ar gyfer cwestiynau allweddol 1, 2, 4 a 6 ond yn is na'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yng nghwestiwn allweddol 3,5 a 7.

Safonau

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Pwnc	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4	Chweched dosbarth
Cymraeg (mam iaith)	2	2	1
Saesneg	2	2	2
Gwyddoniaeth	2	1	2
Daearyddiaeth	3	3	2
Celf	2	3	2
Cerdd	2	2	2

12. Mae'r tabl isod yn dangos canrannau graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu ar gyfer y safonau a gyflawnodd disgyblion a myfyrwyr yn y chwe phwnc a arolygwyd.

93 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod allweddol 3	3%	68%	29%	0%	0%
Cyfnod Allweddol 4	10%	60%	30%	0%	0%
Cyfnod Allweddol 3 a 4 ar y cyd	6%	65%	29%	0%	0%
Chweched Dosbarth	18%	82%	0%	0%	0%
Ysgol Gyfan	8%	70%	22%	0%	0%

13. Dyfarnodd y tîm radd 3 neu well i safonau ym mhob gwrs a arsylwyd. Ers yr arolygiad blaenorol, mae canran y gwersi cyfnod allweddol 3 y dyfarnwyd graddau 1 neu 2 iddynt wedi cynyddu. Bellach mae canran y gwersi y dyfarnwyd gradd 3 iddynt ar gyfer safonau yn ddigon tebyg yng nghyfnod allweddol 3 a 4. Mae ychydig mwy o wersi lle dyfarnwyd gradd 1 i safonau yng nghyfnod allweddol 4.
14. Yn y chweched dosbarth, barn yr arolygwyr yw bod safonau'n radd 1 neu radd 2 ym mhob un o'r gwersi a arsylwyd.
15. Mae'r ystadegau hyn ar gyfer cyflawniadau disgyblion yn sylweddol uwch na'r targedau cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef y dylai safonau mewn gwersi fod yn radd 3 neu well mewn 97% ac yn radd 2 neu well mewn 65% o wersi erbyn 2007.
16. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac mae hyn yn wir hefyd am y disgyblion dawnus a thalentog.

Cyfnodau Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

Llwyddiant mewn arholiadau, profion ac asesiadau allanol.

17. Bu i'r tîm arolygu gymharu perfformiad disgyblion mewn profion, asesiadau neu arholiadau gyda pherfformiad disgyblion ledled Cymru a disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adroddiad llawn.
18. Mae canlyniadau arholiadau a phroffion allanol yr ysgol yn well neu'n llawer gwell na rhai Cymru gyfan ac yn well na rhai awdurdod Gwynedd. Yn ôl nifer o fesuryddion gwerth atodol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

19. Mae canlyniadau'n gwella'n arwyddocaol rhwng cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Serch hynny, mae gwahaniaethau bychain yng nghanlyniadau bechgyn a merched, gyda merched yn perfformio ychydig yn well na bechgyn yn y Saesneg a'r Gymraeg ond bechgyn yn tueddu i berfformio'n well na merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch wedi cau yn y Saesneg yn arbennig. Yn gyfredol, mae'r gwahaniaethau'n llai na'r gwahaniaethau sirol ac yn debyg i'r gwahaniaethau cenedlaethol. Cafodd yr ysgol ei chanlyniadau TGAU gorau erioed yn 2006 ac maent yn dda iawn. Enillodd pob disgybl ym mlwyddyn 11 gymhwyster TGAU yn 2006.

Safonau yn y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach

20. Mae disgyblion yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd ac mae eu cymhwysedd dwyieithog yn rhagoriaeth. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau rhagorol o ddisgyblion a myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth yn un iaith a'i thrafod yn rhugl yn y llall ac yn gallu prosesu a chrynhofi'r wybodaeth yn gyflym ar lafar. Dro arall, yr oeddynt yn ymateb yn ysgrifenedig yn gaboledig yn y Gymraeg i wybodaeth a gasglwyd o sawl ffynhonnell Saesneg trwy ymchwil ar y we.
21. Mae ganddynt fedrau rhif da ac mae cryfderau yn safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gan ddisgyblion yr amynedd i ddatrys problemau, pan gânt gyfle i wneud hynny, ac mae'u gallu i weithio ar y cyd yn dda. Ar adegau, mae'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol ond nid ydynt bob amser yn cael cyfle i wneud hynny ac o ganlyniad nid ydynt bob amser yn derbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Dal i ddatblygu y mae gallu'r disgyblion i asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a gosod targedau meintiol ac ansoddol arwyddocaol iddynt hwy yn bersonol.

Y Chweched Dosbarth

Canlyniadau Safon Uwch

22. Mae canlyniadau safon uwch yr ysgol wedi bod yn dda iawn dros y blynyddoedd. Mae cynnydd arwyddocaol wedi bod yn eu hansawdd ers yr arolygiad blaenorol.
23. Mae nodweddion da amlwg yn cynnwys:
- canran gynyddol o fyfyrwyr wedi ennill gradd A dros y blynyddoedd a hon yn sylweddol uwch na chanran Cymru a'r awdurdod;
 - ansawdd canlyniadau'r myfyrwyr yn arwyddocaol well na rhai Cymru a'r awdurdod o safbwynt sgôr pwyntiau cyfartalog;
 - canran y myfyrwyr a enillodd raddau A-E yn 2006 yn uwch na'r ganran ar gyfer Cymru ac awdurdod Gwynedd;
 - canran y myfyrwyr a enillodd raddau A-C yn 2006 yn uwch na'r ganran ar gyfer Cymru ac awdurdod Gwynedd.

Y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach yn y chweched dosbarth

24. Mae safonau medrau cyfathrebu myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda. Mae safonau dwyieithrwydd yn rhagoriaeth. Mae'u safonau mewn medrau rhif yn dda. Defnyddiant eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyflawni'u gwaith cwrs i safon dda. Mae'r myfyrwyr yn hyfedr wrth ddatrys problemau. Maent yn datblygu medrau da fel dysgwyr annibynnol. Mae'r myfyrwyr yn cydweithio'n rhagorol ac mae'u hagweddau at ddysgu yn arbennig o dda. Gallant arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain yn dda.

Presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad

25. Mae lefel presenoldeb y disgyblion a'r myfyrwyr ychydig yn is na tharged Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae prydlondeb y disgyblion yn dda iawn yn y bore ac i wersi. Fel rheol, mae ymddygiad yn dda ac mae disgyblion yn dangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac eiddo er bod mân siarad mewn ychydig bach o wersi.

Ansawdd yr addysgu

26. Mae'r tabl isod yn dangos y graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu wrth farnu ansawdd yr addysgu yn yr holl wersi a arolygwyd.

131 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod Allweddol 3	10%	58%	30%	2%	0%
Cyfnod Allweddol 4	15%	62%	23%	0%	0%
Cyfnod Allweddol 3 a 4 ar y cyd	12%	61%	26%	1%	0%
Y Chweched Dosbarth	24%	68%	8%	0%	0%
Ysgol gyfan	15%	61%	23%	1%	0%

27. Dengys y tabl isod ddosraniad y graddau a ddyfarnodd arolygwyr i ansawdd yr addysgu yn y chwe phwnc a arolygwyd yn benodol.

Y chwe phwnc

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Ysgol Gyfan	14%	65%	20%	1%	0%

28. Mae graddau ansawdd yr addysgu wedi aros yn weddol debyg ers yr arolygiad diwethaf ond mae peth amrywiaeth oddi mewn ac ar draws pynciau.
29. Mae gwahaniaethau yn ansawdd yr addysgu ar draws y pynciau a arolygwyd yn benodol ond, o ystyried yr ystadegau, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y rhai hyn ac ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol. Yn yr Adran Gymraeg, yr oedd yr addysgu ym mhob gwrs a welodd yr arolygwr pwnc yn dangos naill ai nodweddion da a dim diffygion pwysig neu'n dangos rhagoriaethau.

30. Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2004 i 2005 wedi adrodd bod ansawdd yr addysgu yng Nghymru gyfan yn dda mewn 79% o wersi, gyda 18% o'r gwersi hynny'n meddu ar nodweddion rhagorol. Yn y chwe phwnc, mae'r ysgol wedi taro'r canran o 79% ond 14% o'r gwersi hynny sy'n dangos rhagoriaethau.
31. Mae perthynas waith dda iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon ac mae'r awyrgylch gyfeillgar yn y dosbarth yn hyrwyddo cymhelliant y disgyblion.

Asesu ac adrodd

32. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3 a rheoliadau'r byrddau arholi yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ogystal â gofynion asesu disgyblion a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
33. Mae llawer o nodweddion da yn yr asesu ond nid yw bob amser yn gyson oddi mewn ac ar draws adrannau. Dal i ddatblygu mae'r defnydd o 'Asesu ar gyfer Dysgu' oddi mewn i ddsbarthiadau a hefyd y cyfleoedd cynlluniedig i hybu sgiliau meddwl y disgyblion. O ganlyniad, dal i ddatblygu mae gallu'r disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain, yn ogystal.
34. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hysbysu rhieni am gynnydd eu plant. Mae adroddiadau yng nghyfnod allweddol 3 a 4 yn cael eu paratoi trwy ddefnyddio banciau sylwadau ac mae cyfle i ddisgyblion gyfrannu iddynt. Caiff rhieni gyfle hefyd i ymateb i'r adroddiadau. Mae hyn yn arfer da. Yn y chweched dosbarth, mae adroddiadau'n cael eu paratoi'n bersonol ac mae llawer ohonynt yn dda iawn.

Y Cwricwlwm

35. Er nad yw'r ysgol wedi cydymffurfio â'r gofyn i ddarparu addysg grefyddol statudol ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth, mae'r cwricwlwm yn sicrhau ehangder a chydbwysedd yn astudiaeth disgyblion cyfnod allweddol 3 a 4. Mae'n effeithiol iawn wrth hyrwyddo medrau cyfathrebu disgyblion a myfyrwyr yn y ddwy iaith. Mae ystod dda o gyrsiau, gan gynnwys rhai ymarferol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a safon uwch hefyd. Cydweithia'r ysgol â nifer o sefydliadau eraill i ymestyn y ddarpariaeth yn dda. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo safonau da mewn medrau allweddol ac yn gofalu'n dda iawn am raglen addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion a'r myfyrwyr. Cynigia'r ysgol ystod dda iawn o weithgareddau allgyrsiol ac mae ansawdd addysg gysylltiedig â gwaith hefyd yn dda iawn.
36. Mae partneriaethau da iawn â rhieni, y gymuned leol, ysgolion cynradd a darparwyr addysgol eraill ac maent yn cyfoethogi addysg y disgyblion yn arwyddocaol.

Y gofal, cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddisgyblion

37. Mae nifer helaeth o ragoriaethau yn ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth y mae'r ysgol yn ei roi i ddisgyblion a myfyrwyr a hefyd y sylw a rydd yr ysgol i faterion yn ymwneud â chyfle cyfartal. Mae newydd ddyfodiaid yn cael croeso i gymdeithas yr ysgol ac yn integreiddio'n naturiol. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Datblyga'r disgyblion werthoedd ac agweddau iach tuag at ddinasyddiaeth byd eang a chynaliadwyaeth ac mae parch at gyfoedion, athrawon ac eiddo yn nodwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol.
38. Yn y prif adroddiad, mae cyfeiriad arbennig at gyfraniadau'r chweched dosbarth i werthoedd disgyblion. Trwy eisteddfod yr ysgol a'r cyswllt agos sy'n cael ei ffurfio â disgyblion eraill yr ysgol ac â'r rhieni niferus sy'n mynychu'r eisteddfod, mae'r chweched dosbarth yn cyfrannu'n rhagorol at ddatblygiad diwylliannol a chymdeithasol oddi mewn i'r ysgol. Yn ogystal, mae'r chweched yn cynnal parti mawr i ddisgyblion Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon ac yn codi arian sylweddol iawn er mwyn ei wneud yn achlysur i'w gofio.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

39. Mae gan arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol lawer o nodweddion da.
40. Mae ethos ac ymdeimlad o gymuned da iawn yn yr ysgol ac mae perthynas pobl â'i gilydd yn dda iawn. Caiff hyn ei gyflawni trwy arweinyddiaeth eglur y pennaeth sy'n cael cefnogaeth dda iawn gan ei uwch dîm rheoli, sef y ddau ddirprwy bennaeth. Y mae gan y naill a'r llall gyfrifoldebau penodol a chysylltiad â nifer o adrannau. Maent ag agwedd gefnogol iawn at yr adrannau hyn a meddant ar wybodaeth fanwl amdanynt.
41. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth oddi mewn i adrannau'n amrywio o'r da neu dda iawn i adrannau lle mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion. Ar y cyfan, mae'n dda. Nid yw pob adran wedi sicrhau ei bod yn gyson yn ymarfer mentrau ysgol gyfan.
42. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am waith a pherfformiad yr ysgol sy'n caniatáu iddynt gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau am ddatblygiad strategol yr ysgol ond nid ydynt wedi sicrhau bod addysg grefyddol statudol yn cael ei chynnig yn y chweched dosbarth.

Hunan arfarnu

43. Mae'r trefniadau sydd wedi'u mabwysiadu gan y llywodraethwyr a'r rheolwyr i fonitro perfformiad yr ysgol yn arddangos nodweddion da a dim diffygion pwysig.

44. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn dadansoddi'n gywir a thrylwyr gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae wedi'i seilio ar adnabyddiaeth dda'r uwch reolwyr ohoni.
45. Mae ansawdd hunan arfarnu gan yr adrannau'n amrywio. Weithiau, mae rhagoriaethau neu nodweddion da a thro arall mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion.
46. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r arolygiad diwethaf yn y mwyafrif o faterion allweddol yr oedd angen gweithredu arnynt.

Staffio, adnoddau ac adeiladau

47. Mae rheolwyr yr ysgol yn sicrhau bod lefelau staffio priodol. Mae athrawon, cymorthyddion cefnogi dysgu a staff technegol, clerigol a gweinyddol yn perfformio'n dda.
48. Mae amrediad da o adnoddau ar gael i addysgu'r cwricwlwm trwy'r ysgol. Mae staff yn paratoi eu defnyddiau eu hunain sy'n gwella'r addysgu a, mewn llawer achos, mae'r cynnydd yn narpariaeth offer cyfrifiadurol wedi gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu.
49. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd yn ddigonol ar y cyfan ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae'r cynnydd mewn niferoedd wedi rhoi rhagor o bwysau ar yr ysgol ac wedi golygu bod maint dosbarthiadau wedi cynyddu mewn rhai blynyddoedd ysgol a phynciau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd yn fach i'r niferoedd yn y dosbarth ac mae'r un peth yn wir am y ffreutur a'r llyfrgell. Mae'r ysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar safonau.

Trin arian

50. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn rhagorol. Mae'r prifathro'n gyfrifol am gyllideb yr ysgol ar lefel strategol ac mae'n fanwl drefnus a thrylwyr yn ei gynllunio.
51. O ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid a'i hadnoddau'n effeithiol iawn ac yn llwyddo i roi gwerth da iawn am arian.

Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

- A1 gynnal y safonau rhagorol a da a chodi safonau lle nodir diffygion, ac yn benodol safonau'r pynciau hynny y dyfarnwyd gradd 3 iddynt mewn un neu fwy o gyfnodau allweddol yn ystod yr arolygiad.
- A2 barhau i wella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol ac i wella eu dysgu eu hunain.
- A3 ledaenu'r arferion addysgu ac asesu rhagorol a da yn gyson ar draws yr holl bynciau.
- A4. sicrhau bod myfyrwyr y chweched dosbarth yn cael gwers addysg grefyddol yn ôl y gofynion statudol ar ysgolion.
- A5 gydweithio â'r awdurdodau priodol i dalu sylw i'r materion yn ymwneud â'r adeilad a'r materion iechyd a diogelwch a nodir yng nghorff yr adroddiad.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o gael yr adroddiad, gan ddangos yr hyn fydd yr ysgol yn ei wneud ynghylch yr argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

52. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei adroddiad hunan arfarnu.

Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Pwnc	Cyfnod Allweddol 3	Cyfnod Allweddol 4
Cymraeg (mam iaith)	2	2
Saesneg	2	2
Gwyddoniaeth	2	1
Daearyddiaeth	3	3
Celf	2	3
Cerdd	2	2

53. Mae'r tabl isod yn dangos y graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu ar gyfer y safonau a gyflawnodd disgyblion yn y chwe phwnc a arolygwyd.

71 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod Allweddol 3	3%	68%	29%	0%	0%
Cyfnod Allweddol 4	10%	60%	30%	0%	0%
Cyfnod Allweddol 3 a 4 ar y cyd	6%	65%	29%	0%	0%

54. Dyfarnwyd gradd 3 neu well i bob gwrs a arsylwyd. Ers yr arolygiad blaenorol mae canran y gwrsi cyfnod allweddol 3 y dyfarnwyd graddau sy'n cyfateb i radd 1 neu 2 iddynt wedi cynyddu. Bellach, mae canran y gwrsi y dyfarnwyd gradd 3 ar gyfer safonau iddynt yn ddigon tebyg yn y ddau gyfnod allweddol. Mae ychydig mwy o wersi lle dyfarnwyd gradd 1 i'r gwrsi yng nghyfnod allweddol 4.
55. Mae'r ystadegau hyn ar gyfer cyflawniadau disgyblion yn uwch na'r targedau cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef y dylai safonau mewn gwrsi fod yn radd 3 neu well mewn 97% ac yn radd 2 neu well mewn 65% o'r gwrsi erbyn 2007.
56. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac mae hyn yn wir hefyd am y disgyblion dawnus a thalentog.

Llwyddiant mewn arholiadau, profion ac asesiadau allanol

57. Bu i'r tîm arolygu gymharu perfformiad disgyblion mewn profion, asesiadau neu arholiadau allanol gyda pherfformiad disgyblion ledled Cymru a disgyblion mewn ysgolion tebyg.
58. Mae ansawdd canlyniadau arholiadau a phroffion allanol yr ysgol yn well neu'n llawer gwell na rhai Cymru gyfan ac yn well na rhai awdurdod Gwynedd. Yn ôl nifer o fesuryddion gwerth atodol mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.
59. Mae canlyniadau'n gwella'n arwyddocaol rhwng cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Serch hynny, mae gwahaniaethau bychain yng nghanlyniadau bechgyn a merched, gyda merched yn perfformio ychydig yn well na bechgyn yn y Gymraeg a'r Saesneg ond bechgyn yn tueddu i berfformio'n well na merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r bwlch wedi culhau yn y Saesneg yn arebnnig. Yn gyfredol, mae'r gwahaniaeth bechgyn/merched yn llai na'r gwahaniaeth sirol ac yn debyg i'r un cenedlaethol. Roedd canlyniadau TGAU yn dda iawn yn 2006. Enillodd pob disgybl blwyddyn 11 gymhwyster TGAU yn 2006.
60. Dros y blynyddoedd mae canlyniadau safon uwch wedi bod yn dda iawn. Yn 2006, roedd canlyniadau safon uwch yn cymharu'n dda â rhai'r awdurdod a rhai Cymru.

Ansawdd canlyniadau profion ac asesiadau yng nghyfnod allweddol 3

61. Y prif feincnodau a ddefnyddir ar gyfer arfarnu ansawdd canlyniadau profion ac asesiadau statudol ar gyfer cyfnod allweddol 3 yw:
 - canran disgyblion blwyddyn 9 sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch yn y pynciau craidd unigol, sef y Gymraeg (yn yr ysgol hon), Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg;
 - canran disgyblion blwyddyn 9 sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn cyfuniad o naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef yr hyn a elwir yn ddangosydd pynciau craidd.
62. Mae modd cymharu'r canlyniadau hyn gyda rhai'r ysgol dros amser, gyda chanlyniadau ysgolion Cymru i gyd, ysgolion yr un awdurdod addysg a hefyd gydag ysgolion sydd yn yr un grŵp o safbwynt nifer y disgyblion sydd â'r hawl i bryd am ddim. Rhoddir yr ysgol wedyn mewn un o bedwar 'chwartel' o ysgolion. Term ystadegol yw chwartel sy'n cyfateb yn fras i chwarter yr ysgolion. Y chwartel cyntaf yw'r categori uchaf, a'r pedwerydd chwartel yw'r categori isaf. Yn ogystal, mae modd cymharu'r cynnydd a wna'r un disgyblion dros gyfnod o amser i weld faint o 'werth ychwanegol' mae'r ysgol yn ei roi.

Cyfnod Allweddol 3

63. Yn 2006 yr oedd asesu disgyblion cyfnod allweddol 3 yn ffurfiol gan athrawon yn statudol ond dewisol oedd y profion cyfatebol ac nid oedd yn orfodol ar ysgolion i hysbysu Cydbwyllgor Addysg Cymru o'u canlyniadau.
64. Mae cynnydd graddol yn ansawdd canlyniadau profion neu asesiadau allanol cyfnod allweddol 3 dros y blynyddoedd.
65. Yn ôl nifer o fesuryddion sy'n cymharu cynnydd yr un disgyblion dros amser mae'r ysgol yn cynnig gwerth ychwanegol sylweddol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Nodweddion da

66. Dros y blynyddoedd mae canlyniadau Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a chanran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi cymharu'n ffafriol gyda rhai pob ysgol yng Nghymru ac yn ffafriol gyda chanlyniadau ysgolion uwchradd sir Gwynedd.
67. Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol 3 yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf yn cymharu'n ffafriol gyda chanlyniadau ysgolion y sir, ysgolion Gogledd Orllewin Cymru ac ysgolion Cymru.
68. Pan wneir cymhariaeth o ganlyniadau'r ysgol mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth gyda rhai Cymru gyfan, maent, rhan amlaf, uwchlaw'r canolrif cenedlaethol.
69. Roedd canlyniadau mathemateg yn arbennig o dda yng nghyfnod allweddol 3 yn 2006. Mae canlyniadau mathemateg ar gyfer 2006 yn debygol o osod yr ysgol yn chwarterl uchaf ysgolion Cymru gyfan; yr un modd, mae canlyniadau ar gyfer gwyddoniaeth yn debygol o osod yr ysgol yn yr ail chwarterl.
70. Mae canlyniadau'r Gymraeg wedi bod yn gyson dda dros y blynyddoedd.

Diffygion

71. Pan gaiff canlyniadau cyfnod allweddol 3 yr ysgol yn y cyfnod 2003-2005 eu cymharu gyda rhai ysgolion lle mae llai na 10% o'r disgyblion yn derbyn pryd am ddim, mae:
 - canlyniadau Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y chwarterl isaf neu islaw'r canolrif;
 - gwahaniaeth rhwng canlyniadau merched a bechgyn yn y pedwar pwnc craidd, gyda merched yn perfformio'n well na'r bechgyn yn y ddwy iaith ac i'r gwrthwyneb mewn mathemateg a gwyddoniaeth;
 - canran disgyblion yr ysgol sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd ar gyfer cyfnod allweddol 3 wedi bod islaw'r canolrif mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Cyfnod Allweddol 4

72. Y prif feincnodau ar gyfer arfarnu canlyniadau TGAU yng nghyfnod allweddol 4 yw:
- canran y disgyblion sy'n ennill pum pwnc TGAU neu ragor gradd A*-C
 - canran y disgyblion sy'n ennill pum pwnc TGAU neu ragor gradd A*-G;
 - canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd [gweler y disgrifiad cyfatebol uchod]
 - sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ cyfartalog
73. Mae'r un math o gymariaethau rhwng sefydliadau ac ardaloedd ag a nodwyd ar gyfer cyfnod allweddol 3 yn cael eu gwneud.
74. Er anwastadrwydd o flwyddyn i flwyddyn, mae cynnydd da yn ansawdd canlyniadau TGAU. Cafodd yr ysgol ei chanlyniadau TGAU gorau erioed yn 2006.

Nodweddion da

75. Mae canlyniadau mewn nifer o bynciau sylfaen yn dda neu dda iawn.
76. Mae canlyniadau'r ysgol yn arwyddocaol well na rhai ysgolion Cymru a chystal neu well na rhai sir Gwynedd wrth ystyried y meincnodau a nodir uchod.
77. Mae bechgyn yn cyflawni'n drawiadol well na bechgyn trwy Gymru ac yn well na'r sir wrth ystyried y meincnodau. Yn yr ysgol hon, priodolir hyn, yn rhannol o leiaf, i gryfder bechgyn dros y blynyddoedd mewn mathemateg a gwyddoniaeth, yn arbennig.
78. Mae gan fwyafrif helaeth y pynciau werth atodol positif yn nadansoddiadau WED (sef bas data canlyniadau Cymru) o ganlyniadau TGAU. Yn yr ychydig bynciau yn 2006 lle nad oedd gwerth atodol roedd y diffyg, fel arfer, yn llai na hanner gradd TGAU.
79. Pan ystyrir modelau gwahanol ystadegau gwerth ychwanegol Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar gyfer 2005) a chymharu cyfnod allweddol 4 efo cyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn ychwanegu gwerth ychwanegol sylweddol o safbwynt y sgôr pwyntiau cyfartalog a chanrannau'r disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-C ac A*-G. Mae'r ysgol yn y chwarter uchaf neu ail chwarter ysgolion tebyg. Ym mwyafrif y dadansoddiadau hefyd mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn chwarter uchaf ysgolion tebyg.
80. Wrth ystyried modelau gwahanol ystadegau gwerth atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru a chymharu cyfnod allweddol 2 gyda chyfnod allweddol 4 ac ystyried y tri meincnod uchod, mae'r ysgol yn cynnig gwerth atodol sylweddol yn aml iawn ac yn chwarter uchaf ysgolion tebyg.

81. Ar adegau, mae'r ysgol yn cyflawni'n dda pan gaiff ei chanlyniadau eu cymharu gydag ysgolion eraill lle mae llai na 10% o'r disgyblion â'r hawl i bryd am ddim.
82. Er bod canran y disgyblion sy'n ennill 5 neu fwy o raddau A*-C neu gymhwyster cyfatebol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, roedd yr ysgol yn ail chwarterl ysgolion tebyg yn 2003 ac mae'n debygol o fod yn yr ail chwarterl eto pan gyhoeddir y meincnodau ar gyfer 2006
83. Yn 2003, roedd yr ysgol yn ail chwarterl ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion yn cyrraedd y dangosydd pynciau craidd; pan gyhoeddir ystadegau meincnodol 2006 mae'n debygol o fod naill ai yn yr ail chwarterl neu yn y chwarterl uchaf.

Diffygion

84. Mae gwahaniaethau pynciol yn safonau bechgyn a merched gyda :
 - merched yn cyflawni ychydig yn well yn y Gymraeg a'r Saesneg, a
 - bechgyn yn cyflawni ychydig yn well mewn gwyddoniaeth a mathemateg.
85. Nid yw'r ysgol yn cyflawni gystal wrth ystyried rhai meincnodau pan gaiff ei chanlyniadau eu cymharu gydag ysgolion eraill lle mae llai na 10% o'r disgyblion yn hawlio pryd am ddim.
86. Roedd canran y disgyblion sy'n ennill gradd A*-C mewn o leiaf bum pwnc TGAU a chanran y disgyblion yn ennill gradd A*-G mewn pum pwnc yn gosod yr ysgol yn chwarterl isaf yr ysgolion hyn yn 2004. Hefyd, roedd yr ysgol yn chwarterl isaf ysgolion tebyg o safbwynt sgôr pwyntiau cyfartalog y disgyblion yn 2005. Roedd yn yr ail chwarterl yn 2003 a'r trydydd chwarterl yn 2004. Mae'n debygol o fod yn y trydydd chwarterl eto pan gyhoeddir y meincnodau terfynol ar gyfer 2006.

Safonau yn y medrau allweddol

87. Mae disgyblion yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Maent yn siarad yn hyderus ac maent yn deall y termau arbenigol a gysylltir â bron pob pwnc. Ymatebant yn estynedig ar adegau er bod rhai ymatebion hefyd yn fyr. Mae'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Maent yn darllen yn dda yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu'n dda yn y ddwy iaith ac mae lefelau cywirdeb yn dda. Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion a'u gallu i drawsieithu yn rhagoriaeth. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau rhagorol o ddisgyblion a myfyrwyr yn casglu gwybodaeth yn un iaith a'i thrafod yn rhugl yn y llall ac yn gallu prosesu'r wybodaeth a'i chrynhoi'n gyflym mewn sefyllfa lafar. Dro arall, yr oeddynt yn ymateb yn ysgrifenedig mewn Cymraeg graenus ar ôl casglu gwybodaeth o amryw o ffynonellau Saesneg trwy ymchwil ar y rhyngrwyd.

88. Mae gan y disgyblion fedrau rhif da. Mae gwaith pen yn dda. Defnyddia'r disgyblion reolau rhif yn effeithiol. Gallant ymdrin â gwybodaeth ystadegol, llunio graffiau'n dda, mesur yn gywir, darlunio i raddfa a chreu delweddau mewn dau a thri dimensiwn.
89. Mae safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda. Mae ansawdd cyflwyno gwybodaeth yn dda ac ar adegau, mae'n rhagorol. Mae gallu'r disgyblion i drin data ac i fodelu'n dda ac mae hyn hefyd yn wir am eu gallu i ymchwilio ar y rhyngwyd.
90. Mae gan ddisgyblion yr amynedd i ddatrys problemau, ac mae'u gallu i weithio ar y cyd yn dda. Nid yw'r disgyblion bob amser yn dysgu gweithio'n annibynnol na chwaith bob amser yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain, yn rhannol oherwydd diffyg cyfleoedd cyson. Dal i ddatblygu mae gallu'r disgyblion i asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a gosod targedau personol, boed y rhai hynny'n feintiol neu ansoddol.
91. Mae disgyblion yn datblygu a chyflwyno'u syniadau'n greadigol. Mewn nifer dda o bynciau, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, cerdd, celf a dylunio a thechnoleg mae disgyblion yn dangos dyfeisgarwch a dychymyg.

Cynnydd y disgyblion mewn dysgu

92. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn caffael gwybodaeth a medrau yn gyflym ac yn eu defnyddio'n effeithiol.
93. Mae gan y disgyblion syniad da ynglŷn â sut y maent yn dod ymlaen ond nid ydynt bob amser yn gwybod yn union y meini prawf ar gyfer llwyddo mewn tasg ac nid ydynt yn aml, yn gosod targedau digon miniog iddynt eu hunain ar gyfer gwella.
94. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion dawnus a thalentog yn gwneud cynnydd da.

Presenoldeb a phrydlondeb

95. Mae lefel presenoldeb y disgyblion (rhwng 90 a 91%) wedi llithro ers ychydig er ymdrechion da'r ysgol i'w rwystro. Nid yw'r ysgol, yn gyfredol, yn cyrraedd y targed o 92% a noda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae canran absenoldeb anawdurdodedig yn isel.
96. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn brydlon i'r ysgol. Cyrhaeddant y dosbarth yn brydlon er bod safle'r ysgol yn eang.

Datblygiad sgiliau personol, cymdeithasol a dysgu disgyblion.

97. Mae disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Fel arfer, mae'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda yn y dosbarth ac yn dyfalbarhau â'u gwaith ond ar adegau mae diffyg canolbwyntio a dyfalbarhau. Mae cymhelliad disgyblion o wahanol gefndiroedd ieithyddol, cymdeithasol a diwylliannol i lwyddo yn uchel. Dal i ddatblygu mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol ac i fod yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain
98. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ac ar brydiau mae'n rhagorol. Yn aml iawn, mae'r disgyblion yn gwybod sut i reoli'u hymddygiad eu hunain ac maent yn dangos lefel uchel o barch i'w gilydd, i'w hathrawon a thuag at adeiladau ac offer yr ysgol. Serch hynny, mae mân gamymddwyn ar adegau yn amharu ar y dysgu. Mae'r disgyblion i gyd yn gwrtais ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at greu awyrgylch gadarnhaol sy'n caniatáu dysgu ac addysgu effeithiol.
99. Mae'r disgyblion yn arddangos agwedd ofalgar a chonsyrn tuag at bobl eraill yn y gymuned leol a thu hwnt. Maent yn parchu barn a chredoau'i gilydd a phobl sydd yn wahanol iddynt hwy eu hunain. Dangosant barch hefyd at yr amgylchfyd. Mae lefel ymwybyddiaeth gymdeithasol, ddiwylliannol a moesol yn rhagorol a'u hymwybyddiaeth ysbrydol yn dda.
100. Mae'r disgyblion yn datblygu medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer byd gwaith i safon dda; mae safonau'r medrau allweddol sydd yn fedrau dysgu-gydol-oes yn gyffredinol dda.
101. Ni adawodd yr un disgybl ym mlwyddyn 11 yr ysgol heb gymhwyster yn 2006. Mae'r disgyblion yn llwyddo yn eu cwrs addysg ac yn dewis naill ai i ddod yn ôl i'r chweched dosbarth yn yr ysgol hon, neu i fynd ar gwrs mewn coleg addysg bellach neu adael i gael gwaith.

Y Chweched Dosbarth

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd.

Pwnc	Chweched dosbarth
Cymraeg (mam iaith)	1
Saesneg	2
Gwyddoniaeth	2*
Daearyddiaeth	2
Celf	2
Cerdd	2

*Bioleg - gradd 2

*Cemeg - gradd 1

*Ffiseg - gradd 2

102. Mae'r tabl isod yn dangos y graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu ar gyfer y safonau a gyflawnodd myfyrwyr mewn gwersi yn y chwe phwnc a arolygwyd.

22 gwrs	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Chweched Dosbarth	18%	82%	0%	0%	0%

Canlyniadau Safon Uwch

103. Mae canlyniadau safon uwch yr ysgol wedi bod yn dda iawn dros y blynyddoedd. Mae cynnydd arwyddocaol wedi bod yn eu hansawdd ers yr arolygiad diwethaf.

104. Mae nodweddion da amlwg yn cynnwys:

- canran gynyddol o fyfyrwyr wedi ennill gradd A dros y blynyddoedd ac mae'r ganran yn sylweddol uwch na chanran Cymru ac awdurdod Gwynedd;
- ansawdd canlyniadau'r myfyrwyr yn arwyddocaol well na rhai Cymru a'r awdurdod o safbwynt sgôr cyfartalog;
- canran y myfyrwyr a enillodd radd A-E yn 2006 yn uwch na'r ganran ar gyfer Cymru ac awdurdod Gwynedd;
- canran y myfyrwyr a enillodd radd A-C yn 2006 yn sylweddol uwch na'r ganran ar gyfer Cymru ac awdurdod Gwynedd.

Y medrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach yn y chweched dosbarth

105. Mae safonau medrau cyfathrebu myfyrwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda ac mae'u medrau dwyieithog yn rhagoriaeth. Siaradant yn estynedig gan roi rhesymau a chyfiawnhau barn a safbwynt. Gwrandawant yn dda iawn ar ei gilydd ac ar yr athrawon. Ymchwiliant yn dda cyn cyflawni eu tasgau ysgrifenedig a'u gwaith cwrs.

106. Mae safonau'r myfyrwyr mewn medrau rhif yn dda. Mewn amryw o bynciau maent yn ymdrin yn hyfedr ag ystadegau; maent yn prosesu ac yn cyflwyno data mewn dulliau addas.

107. Defnyddiant eu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyflawni eu gwaith cwrs i safon dda. Mae'r myfyrwyr yn hyfedr wrth ddatrys problemau. Maent yn datblygu medrau da fel dysgwyr annibynnol. Mae'r myfyrwyr yn cydweithio'n rhagorol ac mae'u hagweddau at ddysgu yn arbennig o dda. Da hefyd yw eu gallu i arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain. Mewn pynciau megis celf, cerdd, Saesneg, Gymraeg a dylunio a thechnoleg mae'r myfyrwyr yn meddwl yn greadigol ac mae'r galluocaf yn wreiddiol eu syniadau.

Cynnydd myfyrwyr mewn dysgu

108. Mae myfyrwyr yn caffael medrau da fel dysgwyr annibynnol ac maent yn gwneud cynnydd da.

Datblygiad personol, cymdeithasol a dysgu myfyrwyr

109. Mae agweddau myfyrwyr at ddysgu yn dda iawn. Mae'u gallu i gydweithio ag eraill yn rhagorol ac i'w weld ar draws yr ystod pynciau. Mae'r myfyrwyr yn helpu'i gilydd ac yn parchu barn eraill. Parchant yr amgylchfyd. Mae'r berthynas ragorol rhwng myfyrwyr a'u hathrawon yn hybu'r dysgu a'r addysgu yn arwyddocaol ac yn cryfhau'r ymdeimlad rhagorol o gymdeithas sy'n bodoli yn yr ysgol.
110. Cyfranna'r myfyrwyr yn frwdfrydig i ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd, cymdeithasol, elusennol a diwylliannol. Maent yn gwirfoddoli i gynorthwyo disgyblion iau'r ysgol, er enghraifft gyda'r clwb darllen.
111. Mae tua 50% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn aros ymlaen i'r chweched dosbarth. O'r myfyrwyr sy'n mynd i flwyddyn 12, mae bron pob un ohonynt yn llwyddo'n ddigon da naill i barhau ymlaen i flwyddyn 13 neu i gwblhau eu haddysg mewn sefydliad arall. Mae canran uchel o fyfyrwyr yn mynd ymlaen o'r ysgol i'r brifysgol tra bo'r gweddill naill ai'n dechrau gwaith neu'n derbyn hyfforddiant galwedigaethol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

112. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei adroddiad hunan arfarnu.

Pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddiant yn cyfarfod ag anghenion dysgwyr a gofynion cwricwlaidd neu gyrsiol

113. Mae'r tablau isod yn dangos ansawdd yr addysgu drwy'r ysgol. Dengys y tabl cyntaf ddosraniad y graddau a ddyfarnodd arolygwyr i ansawdd yr addysgu yn y chwe phwnc a arolygwyd yn benodol. Mae'r ail dabl (Pob Pwnc) yn dangos canrannau'r graddau addysgu ar gyfer yr holl wersi a welwyd yn ystod yr arolygiad. Gwelwyd pob athro'n addysgu o leiaf unwaith.

Y Chwe Phwnc

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Ysgol Gyfan	14%	65%	20%	1%	0%

Pob Pwnc

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Ysgol Gyfan	15%	61%	23%	1%	0%

114. Mae'r graddau ar gyfer ansawdd yr addysgu wedi aros yn weddol debyg ers yr arolygiad diwethaf ond mae peth amrywiaeth oddi mewn ac ar draws pynciau.

115. Mae ansawdd yr addysgu'n amrywio ar draws y pynciau ond, yn ystadegol, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng ansawdd yr addysgu yn y chwe phwnc a arolygwyd yn benodol ac ansawdd addysgu trwy'r ysgol. Yn yr adran Gymraeg, yr oedd yr addysgu ym mhob gwers a welodd yr arolygwr pwnc yn dangos naill ai nodweddion da a dim diffygion pwysig neu'n dangos rhagoriaethau.

116. Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yng Nghymru yn ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2004 i 2005 wedi adrodd bod ansawdd yr addysgu yng Nghymru'n dda mewn 79% o wersi, gyda 18% o'r gwersi hynny'n meddu ar nodweddion rhagorol. Yn y chwe phwnc, mae'r ysgol wedi taro'r canran o 79% ond 14% o'r gwersi hynny sy'n dangos rhagoriaethau. O gyfuno graddau 1 a 2 pob pwnc, yr oedd y canrannau ychydig yn is.

117. Mewn 20 % o wersi yn y chwe phwnc, mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion ac mewn 1% arall, sef un wers, mae nodweddion da yn yr addysgu ond mae diffygion mewn meysydd pwysig. O ystyried pob pwnc, mae 24% o wersi lle mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion ac nid oes unrhyw wers, heblaw'r un a nodwyd eisoes, lle mae diffygion mewn meysydd pwysig.

Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

118. Dengys y tabl isod ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn yr holl wersi a arsylwyd.

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Cyfnod Allweddol 3	10%	58%	30%	2%	0%
Cyfnod Allweddol 4	15%	62%	23%	0%	0%

119. Mae ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn radd 1 neu radd 2 mewn 68% o'r gwersi. Yng nghyfnod allweddol 4, mae 77% o wersi gradd 1 a 2. Mae hyn yn dangos gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y ddau gyfnod.

120. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- brwdfrydedd heintus yr athrawon a'u holi treiddgar yn ysgogi disgyblion fel eu bod yn awyddus i ddyfnhau eu dealltwriaeth bynciol ac ymestyn eu medrau meddwl;
- defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn feistrolgar i roi cyfleoedd eang i ddisgyblion gyfranogi'n weithredol yn y wers;
- disgwyliadau priodol, uchel dros ben, ar bob lefel gallu a'r addysgu'n gyfrwng i ddisgyblion wireddu'r disgwyliadau uchel;
- athrawon yn sylweddoli ar unwaith os yw disgybl yn cael anhawster gyda gwaith newydd ac yn delio â hyn yn gyflym, effeithiol ac anymwithiol yn y fan a'r lle.

121. Yn ddieithriad bron, mae perthynas waith dda iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon ac mae awyrgylch gyfeillgar ac ysgogol yn y dosbarth yn hyrwyddo cymhelliant y disgyblion. Nodwedd arbennig o'r ysgol hon yw bod canran uchel o'r staff yn defnyddio hiwmor yn achlysurol fel arf priodol i gymell ac annog eu disgyblion. Mae'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, yn eu parchu fel unigolion waeth beth fo'u cefndir ieithyddol neu grefyddol, rhyw, hil neu anabled ac yn barod i gynnig arweiniad a chynhaliadaeth yn briodol.

122. Mae nodweddion da'r addysgu'n cynnwys:

- amcanion eglur y gwersi'n cael eu rhannu a'u defnyddio'n ystyrllon gyda'r disgyblion;
- sicrhau gwybodaeth flaenorol y disgyblion ac atgyfnerthu hynny'n briodol;

- cynllunio manwl yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau addas yn cael eu cyflwyno ar gyflymder priodol ac o fewn ffiniau amser penodol;
 - ystod o ddulliau ac adnoddau cyfoes yn sicrhau cyfranogiad gweithredol y disgyblion ac yn datblygu eu medrau dysgu a meddwl a'u medrau ymarferol;
 - defnydd bwriadus o waith grŵp a phâr yn annog y disgyblion i drafod;
 - adborth a chynhaliaeth effeithiol sy'n hybu cymhelliant disgyblion;
 - rheolaeth ddosbarth gadarn ac adeiladol;
 - crynhoi'r hyn a ddysgwyd mewn modd ystyrlon a derbyn adborth ar ddiwedd y wers;
 - anogaeth a chanmoliaeth addas a chyson i unigolion.
123. Mae gwybodaeth bynciol athrawon yn dda ar draws yr ysgol ac maent yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes. Mae rhai athrawon mewn rhai pynciau'n defnyddio technegau addysgu cyfoes yn llwyddiannus iawn ac eraill yn eu cyfuno gyda thechnegau mwy traddodiadol yn dra effeithiol hefyd. Darparu'r adrannau gefnogaeth dda iawn i athrawon sy'n dysgu oddi allan i faes eu prif arbenigaeth.
124. Yn y gwersi lle'r oedd diffygion yr oedd rhai o'r nodweddion a ganlyn:
- camamseru gwersi yn arwain at anghydbwysedd yn y tasgau a'r gweithgareddau, ac amser annigonol ar derfyn gwर्स i ddisgyblion adfyfrio ar yr hyn a ddysgwyd;
 - diffyg cynllunio cyfranogiad gweithredol pob disgybl gydol y wers, diffyg anogaeth iddynt gyfrannu syniadau'n llafar a darparu ychydig o gyfleoedd yn unig iddynt ymarfer eu medrau meddwl;
 - gorddibyniaeth ar daflenni parod heb eu gwahaniaethu ar gyfer yr holl ystod gallu;
 - tasgau nad ydynt yn ddigon heriol i'r disgyblion, neu'r gwrthwyneb, ar brydiau;
 - defnyddio'r un technegau addysgu drosodd a throsodd gydol y wers;
 - amharodrwydd i ollwng yr awenau a chyfleoedd prin i ddisgyblion ddatblygu'u medrau allweddol eang.
125. Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd da iawn ar gyfer datblygu dwyieithrwydd drwy'r ysgol. Mae athrawon yn meithrin medrau trawsieithu'r disgyblion trwy gynllunio cyfleoedd da i dderbyn gwybodaeth yn un iaith ac ymateb iddi yn llafar neu'n ysgrifenedig yn y llall. Mae'r ysgol yn awyddus i roi statws uchel i amrediad llawn y medrau allweddol ac mae mwyafrif yr athrawon yn fwriadus yn cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ymarfer y medrau hyn.
126. Yn unol â pholisi ysgol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu'n dda iawn yn yr un dosbarthiadau â'u cymheiriaid, fel rheol, ac yn derbyn cefnogaeth briodol ac anymwthiol gan gymorthyddion neu athrawon sy'n cefnogi am rai gwersi bob wythnos. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd da iawn i'r disgyblion integreiddio'n llawn a derbyn cymorth ychwanegol yn unol â gofynion deddf gwlad.

Y Chweched Dosbarth

127. Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos ansawdd yr addysgu yn y chwe phwnc a arolygwyd yn y chweched dosbarth. Mae'r ail dabl (Pob Pwnc) yn dangos ansawdd yr addysgu ar gyfer yr holl wersi a welwyd yn y chweched dosbarth yn ystod yr arolygiad.

Y Chwe Phwnc:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
27%	68%	5%	0%	0%

Pob Pwnc:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
24%	68%	8%	0%	0%

128. Mae i ansawdd yr addysgu yn y chweched dosbarth yn y chwe phwnc ac ar draws yr holl bynciau gryfderau amlwg gyda dros 90% o wersi yn radd 1 neu 2. Yr oedd rhagoriaethau yn yr addysgu ym mhob gwrs yn y Gymraeg a chemeg yn y chweched dosbarth. Yn y chweched dosbarth, dwy wers gradd 3 yn unig a welwyd. Mae llawer o'r nodweddion da a rhagorol yn debyg i'r rhai hynny a welwyd mewn gwrsi yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

129. Nodweddion yr addysgu da a rhagorol a welir yn bennaf yn y chweched dosbarth yw:

- disgwyliadau uchel iawn ac anogaeth weithredol i fyfyrwyr ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol;
- gwybodaeth bynciol drylwyr a chyfoes yr athrawon;
- arbenigaeth llawer o'r athrawon wrth baratoi'r myfyrwyr ar gyfer cynllunio atebion mewn arholiad;
- cysyniadau pynciol cymhleth yn cael eu hesbonio'n glir;
- holi treiddgar pwnc benodol yn ysgogi'r myfyrwyr i feddwl yn ddadansoddol ac ymestyn eu gorwelion;
- meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu mewn ffordd ystyrlon a pherthnasol gyda'r myfyrwyr;
- myfyrwyr mewn dosbarthiadau anarferol o fawr yn cael pob chwarae teg;
- gosod gwaith yn ei gyd-destun byd-eang, lleol neu alwedigaethol, fel y bo'n addas.

130. Yn y ddwy wers gradd 3, mae'r diffygion a ganlyn yn nodwedd:

- technegau addysgu cyfyng a myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth yn oddefol am ran helaeth o'r wers;
- defnyddio cwestiynau caeëdig a methu annog myfyrwyr i ddatblygu syniadau;
- cyfleoedd cyfyng yn y wers i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Pa mor drylwyr yw asesu a sut y'i defnyddir i gynllunio a gwella dysgu

131. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3, yn ogystal â rheoliadau'r byrddau arholi yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.
132. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion asesu ar gyfer disgyblion a myfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Asesu ac adrodd

133. Mae nodweddion da mewn asesu ac adrodd yn cynnwys:
- cyfarwyddiadau clir gan yr uwch dîm rheoli ar asesu, cofnodi ac adrodd sy'n cynnig arweiniad da iawn i adrannau;
 - defnydd o ganlyniadau asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, 3 a 4 ar gyfer pennu graddau targed i bob disgybl yng nghyfnodau allweddol 3, 4 a'r chweched dosbarth;
 - cyfundrefn asesiadau eglur, wedi'i seilio ar ymdrech a chyrhaeddiad;
 - cyfundrefn fanwl ac effeithiol iawn gan y cyd-gysylltydd asesu ar gyfer cadw golwg ar gynnydd disgyblion o bob gallu;
 - canllawiau eglur ar gyfer gwobrwyo ymdrech ragorol;
 - targedu tangyflawni fel bod disgyblion a myfyrwyr yn cael eu hadnabod yn fuan gyda chyswllt agos rhwng adrannau pynciol, tiwtoriaid dosbarth a phenaethiaid blwyddyn;
 - cynllun tiwtora lle mae disgyblion a myfyrwyr yn cael cymorth da iawn i drafod eu cyflawniad a'u cynnydd gyda'u tiwtor dosbarth neu bennaeth blwyddyn;
 - cyswllt cyson rhwng athrawon a'r penaethiaid blwyddyn ar gyfer nodi cynnydd amlwg a thangyflawni ymysg disgyblion a myfyrwyr;
 - cydweithrediad da â rhieni yn gynnar pan fo tangyflawni;
 - enghreifftiau da iawn mewn rhai adrannau o farcio gwaith disgyblion yn adeiladol yn unol â pholisi ysgol gan gyfarfod ag anghenion disgyblion unigol, gosod targedau a chynnig adborth adeiladol ar sut i wella safon y gwaith;
 - rhai adrannau wedi ymateb i ddyheadau'r ysgol ar ôl derbyn hyfforddiant ac yn gwneud defnydd da o 'Asesu ar gyfer Dysgu' gan rannu meini prawf llwyddiant â'r disgyblion a'r myfyrwyr a'u hannog i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.
134. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hysbysu rhieni o gynnydd eu plant. Mae rhieni'n derbyn dau adroddiad byr ac un adroddiad llawn yn flynyddol ar gyfer pob disgybl yng nghyfnod allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar raddau cyrhaeddiad ac ymdrech. Caiff adroddiadau llawn eu paratoi trwy ddefnyddio banciau sylwadau ac mae'r rhain yn cael eu diweddarau a'u gwella'n gyson. Mae ansawdd y sylwadau'n dda ac yn arfarnol yn y tri phwnc iaith yn arbennig. Mae gwyddoniaeth a cherdd yn gosod targedau ac yn rhoi argymhellion ar sut i geisio sicrhau gwelliant. Yng nghyfnod allweddol 3 a 4, mae'r disgyblion yn cyfrannu at eu hadroddiadau ac mae cyfle i rieni ymateb hefyd. Mae hyn yn arfer da.

135. Mae'r ysgol yn dilyn yr un patrwm o ran adrodd i rieni yn y chweched ond nid oes banciau sylwadau. Rhydd yr ysgol arweiniad i athrawon trwy osod pedwar pennawd ac yna mae athrawon yn paratoi adroddiadau personol mewn llawysgrifen. Yn eu plith, mae rhai enghreifftiau o ansawdd ragorol ac mae'r adroddiadau hynny'n gymorth mawr i fyfyrwyr a rhieni ddeall sut i wella.
136. Mae diffygion mewn asesu ac adrodd yn cynnwys peth anghysondeb yn:
- safonau a dulliau asesu rhai adrannau gyda marcio arwynebol ac ansawdd adborth yn rhy gyffredinol i ddangos yn glir i'r disgyblion a'r myfyrwyr sut i wella'u gwaith;
 - ansawdd yr arweiniad a'r cyfleoedd a gaiff disgyblion a myfyrwyr i hunan asesu neu asesu cymheiriaid;
 - y ffordd y mae gwahanol adrannau'n defnyddio egwyddorion 'Asesu ar gyfer Dysgu' i wella safonau cyflawniad y disgyblion a'r myfyrwyr;
 - ansawdd cyfraniadau adrannol i'r adroddiadau crynodol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 3: nodweddion da yn gorbwyso diffygion

137. Mae'r radd hon yn is na'r radd a roddodd yr ysgol i'r cwestiwn allweddol hwn yn ei hadroddiad hunan arfarnu oherwydd diffyg statudol. Serch hynny, mae nifer o nodweddion da iawn a rhagorol yn y graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a hefyd y graddau y mae profiadau dysgu'n ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

Y graddau y mae profiadau dysgu'n bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr

138. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, addysg gysylltiedig â gwaith ac addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ysgol yn diwallu gofynion rhaglenni astudio ar gyfer y Cwricwlwm Cenedlaethol a manylebion arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol hefyd yn dilyn y canllawiau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig.

Nodweddion rhagorol

139. Mae'r nodweddion canlynol o gwricwlwm Ysgol Brynrefail yn rhagorol:

- y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n cyfrannu'n arwyddocaol i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion;
- sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n ddwyieithog trwy gynllunio gweithgareddau dosbarth ac agweddau o fywyd pob dydd yr ysgol yn gytbwys a gofalus iawn a thrwy hyn yn caniatáu i bob disgybl a myfyriwr gymryd rhan lawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae'n byw ynddi;
- y trefniadau i ateb gofynion Y Cwricwlwm Cymreig drwy amrywiaeth eang o weithgareddau yn y pynciau, megis Cymraeg, Saesneg, daearyddiaeth, celf, cerdd, hanes ac addysg bersonol a chymdeithasol;
- sicrhau mynediad llawn i'r holl ddisgyblion i'r cyrsiau a ddarperir;
- y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn arbennig, y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anabledau penodol.

Nodweddion da

140. Mae nodweddion da sy'n cynnwys:

- cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r disgyblion a'r myfyriwr yn effeithiol;
- cwricwlwm sydd yn sicrhau bod pob disgybl yn gallu sicrhau cymhwyster priodol;

- cydbwysedd da yng nghwricwlwm cyfnod allweddol 3;
- ehangder a hyblygrwydd yn newisiadau disgyblion ar gyfer cyfnod allweddol 4;
- cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 i ennill cymhwyster cydnabyddedig CLAIT mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- sicrhau datblygiad medrau allweddol y disgyblion oddi mewn i bynciau penodol ac addysg bersonol a chymdeithasol;
- drwy waith mewn pynciau perthnasol ac addysg bersonol a chymdeithasol, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiadau cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- cynnig ystod dda o weithgareddau allgyrsiol tu allan i oriau'r ysgol er mwyn cyfoethogi datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion;
- cyfoethogi'r cwricwlwm trwy ymweliadau addysgol yn lleol, cenedlaethol a thramor;
- trefnu wythnos o weithgareddau trawsgwricwlaidd sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn rhoi cyfle iddynt i ddefnyddio sgiliau sylfaenol ac allweddol i bwrpas ymarferol;
- cyfoethogi datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion trwy ddarparu addoliad ar y cyd torfol o safon uchel iawn ddwywaith yr wythnos i bob disgybl yn ogystal ag addoliad ar y cyd yn y dosbarth dair gwaith yr wythnos;
- darparu cyfleoedd i fyfyrwyr y chweched dosbarth redeg clwb darllen gyda chefnogaeth y cymorthyddion i hybu sgiliau darllen rhai o ddisgyblion iau'r ysgol;
- datblygu diddordeb disgyblion yn y broses ddemocrataidd a materion lleol llosg drwy drefnu gweithgareddau priodol cysylltiedig â'r wythnos drawsgwricwlaidd.
- polisïau a gweithdrefnau o ansawdd dda iawn ar gyfer addysg sy'n gysylltiedig â gwaith a menter.

Diffygion

- Nid yw'r ysgol yn darparu cwrs addysg grefyddol ym mlwyddyn 12 a 13; mae hyn yn ddiffyg statudol yn y cwricwlwm.
- Nid oes gan yr ysgol strategaeth glir ar gyfer diwallu anghenion disgyblion galluog iawn.

Y graddau y mae profiadau dysgu'n ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

Nodweddion rhagorol

141. Mae nodweddion rhagorol, yn ogystal, ym mhartneriaethau'r ysgol â sefydliadau eraill, cyflogwyr a'r gymuned leol, sef:

- cynorthwyo disgyblion i gyfrannu i glybiau chwaraeon a phrosiectau lleol niferus ac fel canlyniad creu ymwybyddiaeth ardderchog y disgyblion o'u gymuned leol;

- hybu cyfraniad rhagorol y disgyblion a'r myfyrwyr i ddiwylliant yr ardal drwy gorau, bandiau pres, band jas ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol;
- perthynas unigryw ag ysgol arbennig leol y maent yn codi arian sylweddol ar ei chyfer sy'n galluogi myfyrwyr y chweched dosbarth i gydweithio â'i gilydd a gyda disgyblion ag anghenion arbennig a meithrin parch tuag at bobl sy'n wahanol iddynt hwy eu hunain;
- sefydlu partneriaethau da iawn ac eang â chyflogwyr yr ardal ac ym mhellach;
- sicrhau llwyddiant trwy greu ystod eithriadol o eang o gysylltiadau galwedigaethol lleol sy'n cynnwys cyflogwyr, arbenigwyr mewn crefftau traddodiadol ac mewn meysydd fel addysg, iechyd a'r gyfraith;
- y bartneriaeth dra effeithiol gydag asiantaethau galwedigaethol a gyrfaoel sydd i'w weld yn nilyniant a llwyddiant y cysylltiadau hyn mewn prosiectau cwricwlaidd sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion a'r myfyrwyr;
- cysylltiadau rhagorol â chyflogwyr yr ardal sydd wedi sicrhau bod eu cyfraniad ariannol, eu darpariaeth o adnoddau, eu hymweliadau â'r ysgol i rannu arbenigedd a'u parodrwydd i gynnig lleoliadau profiad gwaith o safon wedi cyfoethogi'n arwyddocaol brofiadau'r disgyblion;
- cwrs galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4 a gynhelir yn yr ysgol neu mewn cydweithrediad â sefydliadau sy'n cyfoethogi a sicrhau addysg gysylltiedig â gwaith o ansawdd uchel.

Nodweddion da

142. Mae hefyd nifer o nodweddion da sy'n cynnwys:

- cyd-weithio gydag ysgolion eraill a cholegau addysg bellach i sicrhau bod nifer da o bynciau traddodiadol, yn ogystal â phynciau galwedigaethol, ar gael i'r myfyrwyr ym mlwyddyn 12 a 13;
- cyswllt bugeiliol a chwricwlaidd da gydag ysgolion cynradd y dalgylch sy'n sicrhau bod trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 yn digwydd yn effeithiol a didrafferth;
- cyswllt da gydag adrannau hyfforddi athrawon sawl prifysgol a chyswllt cwricwlaidd â dwy brifysgol;
- Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol, sef y rhieni, aelodau o'r gymuned ac athrawon sy'n cydweithio â'i gilydd er lles y disgyblion ac sy'n codi arian drwy gynnal gweithgareddau i sicrhau adnoddau ychwanegol i'r ysgol;

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol.

143. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei adroddiad hunan arfarnu.

Y graddau y mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion a buddiannau dysgwyr

Nodweddion rhagorol

144. Mae'r nodweddion rhagorol ar ddarpariaeth yr ysgol yn cynnwys y ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol eang drwy'r ysgol sy'n gyfredol ac wedi'i strwythuro'n ofalus ac yn cynnig profiadau cyfoethog iawn, a chyfle i drin materion sydd o bwys i dwf a datblygiad disgyblion fel pobl ifanc. Elfennau pwysig o'r addysg hon yw:

- disgyblion yn cael gwybodaeth a dealltwriaeth trwy wersi addysg iechyd ac addysg rhyw statudol sy'n cael eu cyflwyno'n effeithiol iawn;
- disgyblion yn caffael gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd perthnasol iawn i wneud penderfyniadau cyfrifol ac aeddfed;
- profiadau'r disgyblion yn cael eu cyfoethogi ymhellach trwy gyswllt ag ystod dda iawn o arbenigwyr sy'n siarad â hwy am bynciau perthnasol;
- y budd a gaiff disgyblion cyfnod allweddol 3 o'r wythnos draws gwricwlaidd flynyddol sy'n cynnig profiadau eang iddynt ac yn manteisio ar y rhwydwaith cynhwysfawr o gysylltiadau ym myd gwaith a busnes a sefydlwyd gan yr ysgol;
- strategaethau'r ysgol a weithredir yn drwyadl ar gyfer dileu unrhyw wahaniaethau ar sail anabledd, rhyw, hil, iaith neu grefydd.

145. Yn ogystal, mae'r rhaglen addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn rhagoriaeth. Mae'n cwmpasu holl elfennau'r Fframwaith Statudol ar gyfer Addysg Gyrfaoel, ac wedi ei chynllunio a'i chyd-drefnu'n effeithiol iawn gan gynnwys:

- gwersi gyrfaoedd o ansawdd uchel iawn;
- cyfweliadau unigol;
- gweithdai effeithiol;
- cyfweliadau ffug â chyflogwyr;
- profiad gwaith wedi'i saernio i anghenion yr unigolyn hyd y bo modd;
- gweithgareddau hybu menter;
- siaradwyr allanol amrywiol a diddorol;
- cytundeb â Gyrfa Cymru;
- cyngor o ansawdd dda iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau dewis pynciau neu gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth i ddisgyblion a rhieni trwy gyfrwng llawlyfrau, cyfarfodydd priodol ac, yn arbennig, cefnogaeth un i un.

146. Mae rhagoriaethau eraill fel a ganlyn:

- disgyblion yn hyderus bod athrawon a staff y gallant droi atynt pan fydd problem ac y bydd yr athrawon neu staff o'u dewis yn ymdrin â hwy mewn modd sensitif;
- defnydd effeithiol iawn a chysylltiad agos iawn â'r gwasanaethau cynhaliath allanol ym maes iechyd, gyrfaedd, lles ac addysg, yn ogystal â'r heddlu;
- fforwm disgyblion a myfyrwyr yr ysgol sy'n gorff effeithiol dros ben ar gyfer lleisio barn y disgyblion a'r myfyrwyr, a'r ysgol yn ymateb i geisiadau'r cyngor ar nifer o faterion;
- ymateb yn briodol ac effeithiol iawn i ddisgyblion sy'n camymddwyn;

Arfer Ragorol

Mae'r ysgol yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i'r gymuned neu'n manteisio ar arbenigaethau gwahanol sectorau neu unigolion yn y gymuned. Mae dau ddigwyddiad yn arbennig o bwysig yng nghalendr yr ysgol, sef eisteddfod yr ysgol a pharti ar gyfer Ysgol Anghenion Arbennig Pendalar, Caernarfon.

Rhydd yr ysgol statws uchel i'r eisteddfod. Mae'r holl drefniadau, yr ymarferion a'r hyfforddi yn gyfrifoldeb y chweched dosbarth, gyda chaptiniaid y tai ym mlwyddyn 13 fel arfer. Mae brwdfrydedd heintus a chystadleuaeth iach, ynghyd â theimlad cryf o gymuned drwy'r ysgol, ar yr achlysur arbennig hwn. Daw beirniaid allanol i'r eisteddfod drwy'r dydd a daw rhieni a chyfeillion yr ysgol oll i ymuno yn yr eisteddfod o chwech yr hwyr tan oddeutu hanner nos.

Mae'r chweched dosbarth hefyd yn paratoi parti i ddisgyblion Ysgol Pendalar, a hynny ers pum mlynedd ar hugain. Dair blynedd yn ôl derbyniodd yr ysgol gydnabyddiaeth am ansawdd uchel y gwaith hwn gan Gronfa Goffa Diana. Mae myfyrwyr y chweched yn casglu symiau mawr o arian, dros £2000 yn flynyddol, trwy nawdd busnesau lleol a gweithgareddau eraill. Caiff yr arian ei ddefnyddio ar gyfer y parti ac fe gaiff pob disgybl o Ysgol Pendalar anrheg Nadolig sylweddol o'i ddewis personol ei hunan. Cedwir cofnodion manwl o bob cam o'r gwaith paratoi a mantolenni ariannol.

Mae'r chweched dosbarth yn ymateb yn rhagorol i'r ymddiriedaeth lwyr ynddynt a'r cyfrifoldeb sylweddol iawn sy'n ynghlwm â'r ddau weithgaredd arbennig iawn hyn.

147. Mae yna nifer o nodweddion da yn narpariaeth yr ysgol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- strwythur bugeiliol cadarn sydd wedi'i sylfaenu ar drefniant o athrawon cofrestru a thiworiaid dosbarth sy'n gyfrifol yn eu tro i'r penaethiaid blwyddyn a'r dirprwy bennaeth;
- cysylltiadau da iawn gyda'r rhieni a gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda rhieni yn Llawlyfr yr Ysgol a thrwy gyfarfodydd rheolaidd iddynt drafod gwaith eu plant yn ystod y flwyddyn;
- trosglwyddo llyfn o'r cynradd i'r uwchradd gyda chyfnod sefydlu effeithiol i'r disgyblion a chysylltiadau bugeiliol da iawn gyda'r ysgolion cynradd a chysylltiadau cwricwlaidd yn datblygu'n dda hefyd gydag unedau pontio effeithiol mewn Saesneg a mathemateg;
- cydymffurfio â gofynion statudol ynglŷn â chofrestru;
- presenoldeb a phrydlondeb yn cael eu monitro'n ofalus a threfn o gysylltu â chartrefi disgyblion sydd â'u presenoldeb yn destun pryder ar y ffôn a thrwy lythyr, gyda'r Swyddog Lles Addysg yn cyfrannu'n effeithiol at y gwaith hwn;
- polisiâu a mesurau effeithiol iawn ar gyfer ymdrin ag achosion o fwlio a phob math o aflonyddwch;
- trefniadau da ar gyfer hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles pob disgybl;
- asesiadau risg ar sawl agwedd o fywyd ysgol yn cael eu cynnal ac ymateb yn brydlon i unrhyw achos o bryder;
- cynnal ymarferion tân rheolaidd;
- nifer o aelodau staff gyda thystysgrif cymorth cyntaf cyfredol;
- yr holl athrawon yn ymwybodol iawn o'r canllawiau ar gyfer amddiffyn plant a chanddynt gopi o'r ddogfen berthnasol;
- dirprwy bennaeth yn gyfrifol am reoli'r drefn amddiffyn plant ac yn cwblhau'r ddyletswydd hon yn effeithiol iawn.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

148. Mae amryw o nodweddion rhagorol yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau a strategaethau'r ysgol i gyfarfod â'r anghenion hyn yn effeithiol a hyblyg. Gwna'r disgyblion gynnydd yn eu gwersi.

Nodweddion rhagorol

149. Dyma'r nodweddion rhagorol ar ddarpariaeth yr ysgol:

- cysylltiadau cynnar, cadarn â'r ysgolion cynradd sy'n sicrhau dadansoddiad trylwyr o wendidau a chryfderau'r disgyblion er mwyn sicrhau'r gefnogaeth fwyaf effeithiol;
- cymorth ychwanegol, effeithiol i unigolion sydd â datganiad;
- defnyddio cryfderau a diddordebau'r disgyblion wrth gynllunio'r gwaith a chadw cofnod manwl o'u cynnydd;

- llinellau cyfeirio clir ac effeithiol ar gyfer mân ddigwyddiadau o ymddygiad trafferthus;
- pwyslais ar ethos gweithgar yn y dosbarthiadau;
- arweiniad a chyfarwyddyd da iawn gan y cydlynnydd a adlewyrchir yn nhrefniant cadarn yr adran.

Nodweddion da

150. Mae yna nifer o nodweddion da yn narpariaeth yr ysgol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- strategaethau hyblyg yng nghyfnod allweddol 3 i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi tynnu allan ac yng ngwersi'r brif ffrwd gyda chefnogaeth ac i'w gweld yn mwynhau eu profiadau dysgu;
- cynllunio gofalus, gan roi ystyriaeth i anghenion yr unigolyn, gyda gwahaniaethu addas a'r gwersi gorau'n cynnwys amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau priodol;
- cefnogaeth effeithiol yn y dosbarth gan gymorthyddion brwdfrydig sydd ag adnabyddiaeth dda o'r disgyblion a defnyddio athrawon yn effeithiol i gefnogi mewn rhai dosbarthiadau, yn ogystal;
- cysylltiadau da gydag adrannau eraill yr ysgol drwy'r Panel Anghenion Addysgol Arbennig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r adrannau;
- rôl y panel wedi'i ddiffinio'n glir;
- polisiau adrannol yr ysgol yn rhoi lle amlwg i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- strategaethau i wella sgiliau llythrennedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn ystod cyfnodau cofrestru gyda chymorth myfyrwyr blwyddyn 12 a 13 a'r disgyblion yn ymateb yn bositif i'r sesiynau hyn a gwneud cynnydd;
- cynlluniau addysg unigol a chofrestr anghenion addysgol arbennig gweithredol a manwl iawn;
- targedau cysylltiedig â'r cynlluniau'n cael eu trafod gyda'r disgyblion a'u rhieni;
- y cynlluniau ar gael i bob athro ar wefan yr ysgol a'r gofrestr yn cael ei ddsbarthu i bob athro;
- adolygu'r targedau sydd yn y cynlluniau a'r gofrestr yn rheolaidd;
- adnabyddiaeth yr athrawon o anghenion disgyblion unigol yn dda;
- defnydd effeithiol o wasanaethau cymorth yr awdurdod addysg lleol;
- ymweliadau wythnosol gan athrawon arbenigol nam clyw a nam golwg ynghyd ag ymweliadau cyson gan y seicolegydd addysg;
- cefnogaeth i'r athrawon a'r cymorthyddion gan yr arbenigwyr uchod a gweithredu ar argymhellion;
- cynnig cydbwysedd addas o gyrsiau galwedigaethol a achredwyd a chysiau mwy academiaidd priodol yng nghyfnod allweddol 4 trwy gysylltiadau effeithiol gyda dau goleg addysg bellach lleol sy'n ymateb cadarn i'r ddogfen "Llwybrau Dysgu".

Diffyg

151. Fodd bynnag, er gwaethaf y darlun cadarnhaol iawn hwn o ddarpariaeth yr ysgol, mae un diffyg sef nad yw pob adran yn defnyddio'r cymorthyddion yn llwyr effeithiol.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal.

152. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Dyma'r nodweddion rhagorol:

- cydnabod gofynion disgyblion a myfyrwyr beth bynnag eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig, ieithyddol neu grefyddol ac ymateb yn effeithiol iawn i hyn yn gwricwlaidd a thrwy drefniadau gofal;
- llwyddo'n arbennig i hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a herio stereoteipio yn newisiadau a disgwyliadau'r disgyblion a'r myfyrwyr trwy ddarparu ystod o weithgareddau amrywiol fel rhan o gwricwlwm arferol ac allgyrsiol yr ysgol;
- hyrwyddo cysylltiadau hiliol yn sensitif iawn a sicrhau nad oes hiliaeth sefydliadol;
- sicrhau mesurau effeithiol iawn i sicrhau bod disgyblion yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu a phoenyddio.

153. Mae'r ysgol wedi cymryd camau da hefyd, ers nifer o flynyddoedd, i sicrhau nad yw disgyblion a myfyrwyr gydag anableddau amrywiol yn cael eu trin yn llai ffafriol. Mae'r ysgol wedi sicrhau cynhaliaeth i'r unigolion perthnasol dros y blynyddoedd ac wedi rhoi pob cyfle cwricwlaidd iddynt. Fodd bynnag, mae un diffyg, sef nad oes modd i ddisgybl, myfyriwr na rhiant neu ofalwr sydd mewn cadair olwyn gael mynediad rhwydd a llawn i'r adeilad ar waethaf ymdrechion yr ysgol i sicrhau addasiadau priodol i'r adeilad. Ar achlysur Parti Pendalar, pan wahoddir plant ag anableddau i'r parti mawreddog, mae'r ysgol yn gwneud trefniadau dros dro trwy ddefnyddio ramp.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2: nodweddion da dim diffygion pwysig

154. Yn ei hadroddiad hunan arfarnu rhoddodd yr ysgol radd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Mae'r radd is a ddyfarnodd y tîm arolygu'n adlewyrchu'r diffyg darparu addysg grefyddol yn y chweched dosbarth, anwastadrwydd monitro targedau oddi mewn i adrannau ac anwastadrwydd yn ansawdd arweinyddiaeth adrannol.

Pa mor dda y mae arweinyddion a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hybu safonau uchel?

155. Mae gan yr ysgol ethos a synnwyr o gymdeithas da iawn ac mae perthynas pawb â'i gilydd yn dda iawn. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy arweinyddiaeth eglur gan y pennaeth sy'n weithgar wrth hybu nod yr ysgol o "Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin a'i barchu fel unigolyn ac yn cael ei gefnogi a'i annog i ddatblygu ym mhob ffordd". Mae'r ddau ddirprwy brifathro yn rhannu'r weledigaeth, ynghyd â phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgol.
156. Mae'r uwch dîm rheoli'n cefnogi'r prifathro'n dda iawn. Mae gan y naill ddirprwy a'r llall gyfrifoldebau eglur a chyswllt â nifer o adrannau penodol. Maent yn gefnogol iawn i'r adrannau hyn ac mae ganddynt adnabyddiaeth fanwl ohonynt. Mae penaethiaid adrannau'n gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad a gânt gan yr uwch dîm rheoli. Mae penaethiaid adrannau a benodwyd yn ddiweddar yn arbennig yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad a ddarperir. Mae safon yr arweinyddiaeth oddi mewn i adrannau'n amrywio o'r da iawn i'r boddhaol. Yn gyffredinol, mae'n dda ond nid yw pob adran wedi sicrhau bod rhai mentrau ysgol gyfan yn cael eu gweithredu'n gyson.
157. Caiff y cynllun datblygu ysgol ei lunio yn unol â chylch cynllunio manwl sydd wedi ymsefydlu'n dda ac yn cymryd blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i ystyriaeth. Mae datblygiadau'n cael eu rhoi yn ôl trefn blaenoriaeth fesul datblygiad allweddol, angenrheidiol neu ddymunol. Mae cynlluniau datblygu adran yn cefnogi'r cynllun datblygu ysgol ac yn gosod targedau ar gyfer y safonau i'w cyflawni. Mae cysylltiadau effeithiol wedi cael eu ffurfio gydag ysgolion cynradd yn y dalgyrch a gyda cholegau a phrifysgolion lleol ac eraill sy'n darparu cyrsiau galwedigaethol.
158. Mae polisïau a gweithgareddau ysgol yn hybu cyfle cyfartal ac mae gan bob grŵp yn yr ysgol fynediad cyfartal i bob cwrs a gweithgaredd. Nid oes unrhyw ddisgybl o dan anfantais ar sail cefndir ieithyddol neu ddiwylliannol. Darpara'r ysgol gefnogaeth dda iawn i'r disgyblion hynny nad yw Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

159. Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi'u sefydlu'n dda yn yr un modd â'r gyfundrefn hunan arfarnu. Rhoddodd yr uwch dîm rheoli gefnogaeth i sicrhau unffurfiaeth yr adroddiadau hunan arfarnu adrannol cyntaf yn dilyn trefn saith cwestiwn allweddol Estyn er bod ansawdd yr adroddiadau'n amrywio o adran i adran.
160. Fel agwedd o reoli perfformiad, caiff adrannau eu monitro'n flynyddol. Mae'r person cyswllt o'r uwch dîm rheoli yn arsylwi penaethiaid adrannau ac fel rheol maent hwythau yn eu tro yn arsylwi gwersi aelodau o'u hadrannau. Nid yw cyd-arsylwadau gan aelod o'r uwch dîm rheoli a phennaeth adran yn digwydd. Yn ogystal, mae cryn dipyn o fonitro anffurfiol yn digwydd yn yr ysgol. Mae penaethiaid adrannau'n monitro gwaith ysgrifenedig disgyblion ond mae arferion yn amrywio ar draws yr ysgol. Mae tuedd i hyn fod yn siecio marcio yn hytrach nag ymarfer sy'n canolbwyntio ar agwedd benodol o'r gwaith.
161. Mae gan yr ysgol broses fanwl wedi'i sylfaenu ar berfformiad disgyblion unigol o fewn yr ysgol ac mewn profion allanol ar gyfer gosod targedau. Mae disgyblion yn gosod eu targedau cyfnod byr a chyfnod maith eu hunain mewn sawl pwnc ond yn aml mae'r rhain yn rhy gyffredinol a heb fod yn ddigon miniog i gefnogi cynnydd. O fewn y pynciau, mae targedau ysgrifenedig ar gyfer cynnydd disgyblion yn amrywiol. Yn achlysurol, maent yn dda iawn. Mae gwybodaeth disgyblion am eu targedau personol yn anghyson ar draws yr ysgol.
162. Mae anghenion hyfforddiant a datblygiad staff yn cael eu hadnabod trwy fynychu cyrsiau addas neu oddi mewn i'r ysgol ar ddyddiau datblygiad proffesiynol. Mae rhai aelodau o staff wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud cais am fwrseriau a grantiau i gefnogi'u hanghenion datblygu eu hunain. Mae ansawdd anwytho a chefnogaeth i staff sydd newydd gymhwyso'n dda iawn.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr a chyrrff rheoli eraill yn cyfarfod â'u dyletswyddau

163. Fel arfer, mae'r llywodraethwyr yn cyflawni'u cyfrifoldebau'n dda ac wedi sicrhau bod yr ysgol yn cyfarfod â gofynion cyfreithiol a chyrsiol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Nodweddion da

164. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am:
- waith a pherfformiad yr ysgol a hyn yn caniatáu iddynt gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau am ddatblygiad strategol yr ysgol;
 - ganlyniadau disgyblion a myfyrwyr mewn profion ac arholiadau allanol;
 - sut mae'r ysgol yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion cyffelyb;

Diffygion

165. Mae dau ddiffyg, sef:

- nad yw'r corff wedi sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol parthed addysg grefyddol statudol ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth;
- nad oes cyswllt cwricwlaidd uniongyrchol rhwng adrannau unigol ac aelodau o'r corff llywodraethol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

166. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yr un fath â'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei adroddiad hunan arfarnu.

Pa mor effeithiol yw'r broses o fonitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol?

167. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn dadansoddi'n gywir a thrylwyr gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae wedi'i seilio ar adnabyddiaeth dda'r uwch reolwyr ohoni.

168. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyfateb yn weddol agos i ganfyddiadau adroddiad hunan arfarnu'r ysgol ond mae gwahaniaeth yn y graddau mewn tri o'r saith cwestiwn allweddol. Lle mae gwahaniaeth rhwng barn yr ysgol a'r tîm arolygu, mae pwysoli ffactorau a'u dehongliad gan yr ysgol wedi bod yn wahanol i bwysoli'r tîm arolygu. Serch hynny, bu'r broses yn debyg iawn.

169. Mae gan yr ysgol drefniadau hunan arfarnu priodol sydd wedi'u seilio ar ddefnydd o ystod eang o dystiolaeth. Mae'r broses yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol o waith disgyblion, arsylwi gwersi a dadansoddi data profion, arholiadau ac asesiadau allanol.

170. Mae monitro rheolaidd a strwythuredig o wersi gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r rheolwyr canol i bwrpas rheoli perfformiad, yn sicrhau bod adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r arsylwi gan yr uwch dîm rheoli yn gryfder ar lefel ysgol gyfan.

171. Mae prif ganfyddiadau'r hunan arfarnu yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â chynllun datblygu'r ysgol.

172. Mae pob adran wedi gwneud hunan arfarniad yn seiliedig ar saith cwestiwn allweddol Estyn. Mae ansawdd yr hunan arfarniadau adrannol hyn yn amrywio ond at ei gilydd maent yn rhoi darlun cyfansawdd o'r cryfderau a'r hyn sydd angen ei wella. Mae'r adrannau yn dadansoddi canlyniadau profion ac arholiadau'n flynyddol ac wedi paratoi strategaethau i godi safonau o ganlyniad.

173. Mae'r ysgol yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn ofalus trwy amrywiol ffyrdd. Yn eu plith mae holiaduron, ymatebion Fforwm Disgyblion a Myfyrwyr yr Ysgol a strategaethau eraill o fewn rhaglenni megis addysg bersonol a chymdeithasol i ddadansoddi agweddau disgyblion ynglŷn â'u profiadau o ddydd i ddydd.

174. Mae'r gyfundrefn hunan arfarnu yn rhoi cyfleoedd rheolaidd ffurfiol ac anffurfiol da i gyfranddalwyr megis rhieni, cyflogwyr a chynrychiolwyr o'r gymuned i gyfrannu at y broses.

175. Mae hyfforddiant ysgol ganolog ar broses hunan arfarnu a dadansoddi data wedi cynyddu ymwybyddiaeth y penaethiaid adrannau a'r staff yn gyffredinol o'r broses hunan arfarnu.

Effeithiolrwydd y broses o gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant

176. Mae dogfen hunan arfarnu'r ysgol yn sylfaen gadarn ar gyfer creu cynlluniau datblygu pwrpasol ar gyfer yr adrannau a'r ysgol gyfan.
177. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen waith effeithiol, sy'n cynnwys bwriadau'r ysgol dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n nodi blaenoriaethau mewn ffordd gryno a chywir.
178. Mae'r adroddiadau hunan arfarnu adrannol, gan fwyaf, o ansawdd dda. Mewn rhai achosion, nid ydynt yn ddigon penodol i sicrhau bod adrannau'n pennu bwriadau a thargedau ar gyfer gwelliant.
179. Mae blaenoriaethau hyfforddiant athrawon wedi sicrhau cyflwyno dulliau dysgu effeithiol cyfoes, megis sgiliau meddwl, ac mae rhai adrannau wedi'u mabwysiadu'n effeithiol. Nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr adrannau.
180. Darpara'r ysgol gyllid ac adnoddau digonol ar gyfer cefnogi a gweithredu'r prif flaenoriaethau. Mae cyswllt agos rhwng y cynllun datblygu ysgol a'r gyllideb.
181. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r mwyafrif o'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol.
182. Cafodd hunan arfarnu a chynllunio strategol effaith gadarnhaol a mesuradwy ar nifer o agweddau o waith yr ysgol. Mae safonau wedi codi yn y pynciau craidd i gyd ac mae'r pynciau hyn wedi elwa ar strategaethau bwriadus i wella dysgu ac i ddefnyddio asesu fel erfyn i godi safonau. Mae'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi gwella'n sylweddol a bellach yn cael ei ddefnyddio'n fedrus ar draws y rhan fwyaf o'r pynciau.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

183. Mae'r radd hon yn is na'r radd a roddodd yr ysgol iddi ei hun. Mae'r ysgol wedi dehongli adnoddau fel y rhai yr oedd hi'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt ac wedi defnyddio hyn fel sail eu harfarniad. Mae'r tîm arolygu wedi ystyried yr holl adnoddau sydd ar gael i'r ysgol.

Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd o staff, adnoddau dysgu, yr adeilad a'r ystafelloedd

184. Mae rheolwyr yr ysgol yn sicrhau lefelau staffio priodol ar waethaf costau staffio uchel oherwydd bod cymaint o staff profiadol yn yr ysgol. Mae gan yr holl athrawon gymwysterau priodol ar gyfer y pynciau y maent yn eu haddysgu. Defnyddia'r ysgol staff cefnogi dysgu'n effeithiol ac maent hwy'n gweithio'n agos gyda'r athrawon. Mae'r staff cefnogi hefyd yn gwneud cyfraniad da i'r clwb darllen boreol ac i weithgareddau allgyrsiol ac amser cinio. Mae'r staff gweinyddol a chefnogi yn cyflawni'u dyletswyddau'n dda er nad oes digon o gefnogaeth dechnegol a gweinyddol. Mae llyfrgellydd yn cyd-drefnu ac arolygu'r defnydd o'r llyfrgell yn dda. Gwna'r staff clerigol, technegol a gweinyddol gyfraniad pwysig iawn i redeg yr ysgol yn effeithiol o ddydd i ddydd.
185. Mae amrediad da o adnoddau ar gael i addysgu'r cwricwlwm trwy'r ysgol. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys defnyddiau pynciol o ansawdd da ac yn aml maent yn ddefnyddiau a gynhyrchodd yr ysgol ei hun. Mae dyraniad cyfalaf i adrannau ar sail y nifer o ddisgyblion a addysgir a phwysiad y pwnc. Mae rhagor o arian ar gael i adrannau ar ffurf ceisiadau i hybu mentrau a phrosiectau a nodir yn y cynlluniau datblygu adran. Buddsoddodd yr ysgol yn drwm mewn cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer disgyblion ac athrawon. Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y llyfrgell ac mae gormod o ddisgyblion eisiau ei defnyddio amser cinio.
186. Mae'r adeilad yn gyffredinol ddigonol ar gyfer y nifer sydd ar y gofrestr. Mae gan yr ysgol neuadd fawr a neuadd chwaraeon newydd sbon a nifer o ystafelloedd a chyfleusterau cymharol newydd o ansawdd da iawn. Mae'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion wedi gwneud y sefyllfa'n anos i'r ysgol ac wedi arwain at ddosbarthiadau mwy mewn rhai grwpiau blwyddyn a phynciau. O ganlyniad, mae mwyafrif yr ystafelloedd yn rhy fach ar gyfer y nifer o ddisgyblion yn y dosbarth. Mae hyn yn amlwg iawn yn yr ystafelloedd cerdd. Nid oes derbynfa wrth y fynedfa i lawr y grisiau ar gyfer ymwelwyr na rhieni. Mae dosbarthiadau mewn un adran yn gweithio mewn cabanau dros dro. Mae coridorau'n gul ac nid oes ystafelloedd cotiau priodol ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn effeithiol yn goresgyn y cyfyngiadau y mae'r adeilad yn ei osod arni ac wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar safonau.

187. Nid yw'r ysgol wedi cael ei haddasu ar gyfer rhai mewn cadeiriau olwyn. Mae'r ffreutur a'r llyfrgell yn fach i ysgol o'r faint hon.

Pa mor effeithiol ac effeithlon y defnyddir adnoddau i sicrhau gwerth am arian

188. Caiff staff eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Mae cyswllt agos iawn rhwng penderfyniadau ynglŷn ag adnoddau a blaenoriaethau ac amcanion yr ysgol.
189. Caiff staffio ac adnoddau eu hasesu'n flynyddol ar sail angen cwricwlaidd a rhagdybiaethau am gyfnod o dair blynedd. Mae gwaith ailfodelu'r gweithlu wedi'i gwblhau ac amser digyswllt statudol ar gyfer athrawon wedi cael ei weithredu ac mae'r ysgol wedi cyhoeddi ei strwythur staffio ar gyfer cyfrifoldebau addysgu a dysgu. Mae rhaglen gynlluniedig i anwytho, cefnogi a mentora ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso.
190. Mae datblygiad staff o'r tu allan i'r ysgol yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfoesi staff o safbwynt gofynion y byrddau arholi. Defnyddir rheoli perfformiad i ganfod anghenion hyfforddiant cysylltiedig â'r cynlluniau datblygu ysgol ac adran ac anghenion yr unigolyn. O ganlyniad i doriadau diweddar yn y gyllideb hyfforddi, bu cwtogi sylweddol ar y nifer o ddyddiau hyfforddiant y mae athrawon unigol yn eu mynychu o'r tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn darparu ei hyfforddiant o ansawdd da ei hun i ddatblygu staff. Mae nifer o aelodau o staff wedi manteisio ar grantiau ychwanegol i gefnogi'u datblygiad proffesiynol personol. Nid oes unrhyw aelod o staff yn dilyn y cyrsiau CPGH ar gyfer darpar benaethiaid ar hyn o bryd. Nid yw'r hyfforddiant i gefnogi'r flaenoriaeth i ddatblygu addysgu a dysgu wedi bod yn llwyr effeithiol eto na'r hyfforddiant i ddatblygu medrau arwain a rheoli rheolwyr canol.
191. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn rhagoriaeth. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am gyllideb yr ysgol ar lefel strategol ac mae'n eithriadol o ofalus a thrylwyr yn ei gynllunio. Caiff ei gefnogi gan y swyddog gweinyddol sy'n monitro'r gyllideb o ddydd i ddydd, yn darparu adroddiadau manwl i'r pennaeth, is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol a phenaethiaid adrannau.
192. Gwneir penderfyniadau ariannol ar sail anghenion cwricwlaidd a'r blaenoriaethau addysgol a nodir yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol yn effeithiol yn chwilio am a cheisio pob grant a nawdd sydd ar gael.
193. Oll yn oll, mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid yn effeithiol iawn ac yn cyflawni gwerth da iawn am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Cymraeg iaith cyntaf

Cyfnod Allweddol 3 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.
Cyfnod Allweddol 4 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.
Chweched Dosbarth Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol.

Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

Nodweddion da

194. Mae agwedd yr holl ddisgyblion at eu gwaith yn gadarnhaol ac maent yn canolbwyntio a gwrando'n bwrpasol yn eu gwersi. Maent yn ymateb yn dda i'w gilydd mewn gwaith pâr a grŵp ac yn dangos parch y naill at y llall. Cefnogant ei gilydd yn dda ac elwnt ar syniadau ei gilydd.
195. Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn ymateb ar lafar yn hyderus ac eglur yn y dosbarth. Ymateba'r goreuon yn estynedig gan ddefnyddio iaith raenus a glân. Mae canran uchel yn mynegi barn a chyflwyno safbwynt yn effeithiol a hyderus ac yn cefnogi'r farn honno â thystiolaeth berthnasol sylweddol.
196. Mae gan y disgyblion ar draws yr ystod gallu ddealltwriaeth gynyddol o gyweiriau iaith a gallant newid o gywair ffurfiol i gywair anffurfiol yn ôl y galw.
197. Mae gwaith llafar y disgyblion yn y ddau gyfnod yn un o'u cryfderau amlwg. Mae cynnydd arwyddocaol i'w weld yn glir o flwyddyn i flwyddyn o ran geirfa, cystrawennau a'r pynciau y gallant eu trafod yn ymestynnol.
198. Mae safonau darllen yn amrywio yn ôl oed a gallu'r disgyblion ond yn gyffredinol maent yn dda.
199. Gall y rhan fwyaf ddarllen ar goedd heb baratoi, yn rhwydd ac ystyrion gan ddefnyddio mynegiant priodol. Mae'r mwyafrif llethol yn darllen nifer dda o lyfrau am bleser a chofnodi eu hymateb iddynt yn ddiddorol. Yn y ddau gyfnod allweddol, gallant gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau'n bwrpasol a'u haddasu i gwrdd â gofynion tasg benodol.
200. Mae'r disgyblion, yn ôl eu gallu, yn ymateb yn dda i destunau darllen uchelgeisiol llenyddol ac anllenyddol yn y dosbarth. Gwna disgyblion blwyddyn 7 ac 8 hyn yn bennaf yn llafar a chyrhaeddant safonau da a da iawn. O flwyddyn 9 ymlaen, ymatebant i destunau heriol drwy gyfrwng gwaith ysgrifennu yn ogystal â gwaith llafar a chynhyrchant waith estynedig o safon dda. Gallant ddefnyddio nifer dda o dermau llenyddol yn llwyddiannus.
201. Adeilada disgyblion cyfnod allweddol 4 ar y sylfaen hon er mwyn cynhyrchu gwaith cwrs o safon gymeradwy.

202. Mae disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn cadw cofnod llawn o lyfrau a ddarllenant er pleser a chaiff hyn gryn ddylanwad ar gyfoeth eu geirfa a'u priod ddulliau.
203. O flwyddyn 7 ymlaen, mae disgyblion ar draws yr ystod gallu yn ysgrifennu'n gyson ac i amrywiaeth o bwrpasau. Ysgrifennant mewn nifer o wahanol ffurfiau ieithyddol.
204. Yng nghyfnod allweddol 3, yn gynyddol, ac yng nghyfnod allweddol 4, mae'r goreuon yn cyflawni safonau da iawn. Gallant ysgrifennu'n estynedig ac yn ddiddorol mewn nifer dda o wahanol ddulliau megis, hanesion, deialogau naturiol, dyddiaduron ac ymsonau, adolygiadau a phortreadau trawiadol.
205. Erbyn blwyddyn 10 a blwyddyn 11, gall nifer dda o ddisgyblion ysgrifennu'n afaelgar a theimladwy. Ymatebant i lenyddiaeth yn ddeallus, gan ddadansoddi'n fanwl ac enghreifftio'n bwrpasol.
206. Ar y cyfan, mae gan y garfan hon o ddisgyblion adnoddau iaith cyfoethog a gwnânt ddefnydd bwriadus o ansoddeiriau, cymariaethau a throsiadau.
207. Mae grŵp o ddisgyblion ym mhob blwyddyn yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o safon dda iawn. Mae'u gwaith yn aeddfed, gwreiddiol a llawn dychymyg. Gallant bwysu a mesur safbwyntiau a defnyddio gwahanol ffynonellau'n grefftus.
208. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn unol â'u gallu. Gallant siarad yn rhwydd a mynegi barn bendant. Darllenant destunau addas yn ystyrlon a chyda chymorth llwyddant i gyflwyno gwaith ysgrifennu effeithiol.
209. Mae disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf a ddarpara'r adran. Mae'r gweithgareddau hyn a'r broses o ail drafftio yn mireinio'u sgiliau ieithyddol ac yn arwain at godi safonau.

Diffygion

210. Mae gwallau gramadeg, sillafu a threiglo yn llesteirio mynegiant lleiafrif arwyddocaol o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol.
211. Mae nifer fechan o ddisgyblion yn ei chael yn anodd iawn i ymestyn ymatebion llafar mewn trafodaeth ddosbarth ac mewn gwaith grŵp.

Y Chweched Dosbarth.

Nodweddion rhagorol.

212. Mae disgyblion blwyddyn 12 a blwyddyn 13 yn gwneud cynnydd rhagorol; maent yn hunan-ddisgybledig ac yn ymroddgar ynglŷn â'u gwaith ysgol. Maent yn arddangos safonau da iawn neu ragorol ym mhob gweithgaredd dosbarth.

213. Wrth gyfrannu i drafodaeth dosbarth ac wrth gydweithio mewn grŵp, mae'r myfyrwyr yn cynnig sylwadau estynedig aeddfed a threiddgar wrth drafod testunau llenyddol o wahanol gyfnodau. Siaradant yn rhwydd a hyderus gydag ymwybyddiaeth gynyddol o gynulleidfa a phwrpas eu tasg. Ymatebant yn ddeallus i syniadau ei gilydd mewn geirfa briodol ac eang. Mae'u sylwadau'n amlygu darllen cefndirol eang a gallant ddwyn tystiolaeth o weithiau amrywiaeth o feirdd a llenorion cyfoes ac o'r ganrif ddiwethaf.
214. Darllenant yn ofalus wrth werthfawrogi testunau. Wrth drafod yr hyn a ddarllenant gallant ddwyn tystiolaeth o weithiau amrywiaeth o feirdd a llenorion gan groesgyfeirio a chymharu arddulliau llenyddol gwahanol awduron a beirdd.
215. Mae'r myfyrwyr yn cynhyrchu gwaith creadigol gafaelgar; mae'r cynnwys yn wreiddiol a bywiog ac wedi'i gynllunio'n dda iawn. Mae'r mynegiant ieithyddol yn ganmoladwy a'r arddull yn llithrig a naturiol.
216. Mae gwaith y goreuon yn drawiadol ac yn arddangos holl nodweddion gradd A safon uwch.

Diffygion

217. Nid oes diffygion pwysig

Saesneg

Cyfnod Allweddol 3 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.
Cyfnod Allweddol 4 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.
Chweched Dosbarth Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnodau Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

Nodweddion da.

218. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn gwranddo'n dda ar eu hathrawon ac yn ymateb yn briodol i'r hyn a ofynnir ohonynt.
219. Mae nifer bach o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn awyddus i gymryd rhan mewn gwaith llafar ac yn mynegi eu syniadau'n glir. Gall y disgyblion mwyafrif galluog ymhelaethu ar eu syniadau a chyfiawnhau'u barn yn hyderus.
220. Mae gan fwyaf y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol atgof eglur o waith blaenorol ac mae bechgyn a merched yn cyfrannu'n gyfartal i sesiynau holi ac ateb ar ddechrau gwers.
221. Mae'r holl ddisgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol yn darllen amrywiaeth eang o destunau printiedig a rhai yn gysylltiedig â'r cyfryngau yn rheolaidd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen er pleser yn rheolaidd ac yn cynnal ymchwiliadau personol gan ddefnyddio technoleg fodern a dethol gwybodaeth a delweddau perthnasol.
222. Mae mwyafrif disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn darllen ar goedd yn dda ac yn gallu dal sylw disgyblion eraill wrth ddarllen.
223. Mae'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn darllen deunyddiau addas i'w hoedran gyda lefel dda o ddealltwriaeth. Maent yn darllen ac yn ymateb i ystod o destunau llenyddol, gan gynnwys rhai sy'n arbennig o berthnasol i Gymru, neu sydd o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill.
224. Mae'r goreuon yng nghyfnod allweddol 3 yn arddangos y gallu i ddadansoddi testun a ddarllenwyd ac mae'r disgyblion mwyafrif galluog yng nghyfnod allweddol 4 yn cynhyrchu dadansoddiadau craff sy'n dangos dyfnder dealltwriaeth o gymeriadau, themâu ac arddull.
225. Mae'r holl ddisgyblion ar draws y ddau gyfnod allweddol yn ysgrifennu ar amrywiaeth o ffurfiau ac ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Mae nifer helaeth o ddisgyblion yn dangos sgiliau drafftio da.
226. Mae'r holl ddisgyblion yn gallu dadansoddi cymeriad, plot a thema, gan gefnogi eu safbwynt yn unol â'u gallu, gyda fframweithiau ysgrifennu a thafenni gwahaniaethol yn gymorth iddynt wneud hynny.

227. Mae cynnydd canfyddadwy yng ngwaith ysgrifenedig nifer helaeth o ddisgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 3. Mae ganddynt eirfa eang a strwythur brawddegol amrywiol. Mae'r goreuon yn gallu cymharu a gwrthyferbynnu testunau'n dda.
228. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gwaith y disgyblion mwyaf galluog yn arddangos dealltwriaeth dda o grefft yr awdur a gwerthfawrogiad o nodweddion arddull testunau cymhleth.

Diffygion

229. Mae canran arwyddocaol o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn y ddau gyfnod allweddol yn cael problemau gyda sillafu.
230. Nid yw gallu nifer sylweddol o ddisgyblion i gyfrannu ar lafar mewn gwaith pâr, grŵp neu ddsbarth cyfan wedi datblygu'n ddigonol.

Y Chweched Dosbarth

Nodweddion da.

231. Mae mwyafrif helaeth myfyrwyr blwyddyn 12 a blwyddyn 13 yn gwneud cynnydd da.
232. Maent yn dangos dealltwriaeth o arwyddocâd ehangach a chyd-destun hanesyddol y gwaith a astudiant ac yn gallu cyfeirio at eu darllen ehangach i gefnogi'u safbwynt.
233. Mae nifer arwyddocaol o fyfyrwyr yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol trwy gynnig dehongliadau gwreiddiol a ystyriwyd yn dda ac yn datgan barn yn feddylgar mewn trafodaeth dosbarth.
234. Mewn gwaith ysgrifenedig, mae'r myfyrwyr mwyaf galluog yn dangos yn glir sut mae defnydd iaith yr awdur yn creu effeithiau gwahanol. Defnyddia'r myfyrwyr eirfa eang. Gallant adnabod a gwerthfawrogi ystod o nodweddion technegol ac arddull yn effeithiol, a chefnogi eu safbwyntiau gyda dyfyniadau perthnasol.

Diffygion

235. Nid yw rhai myfyrwyr yn hybu eu dealltwriaeth o destunau gosod trwy gyfrannu i drafodaethau grŵp a dosbarth.

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 3 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4 Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Chweched dosbarth Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig*

**Yn y chweched dosbarth mae modd gwahaniaethu rhwng y gwyddorau.*

Biolog Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cemeg Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol -
Ffiseg Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 3

Nodweddion da

236. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn hyderus i gwestiynau gan ddefnyddio termau gwyddonol yn gywir ac yn briodol. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o waith blaenorol.
237. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn gwrando'n astud yn ystod trafodaethau dosbarth, gan ddangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn gweithio'n frwdfrydig ac mae ganddynt agwedd dda tuag at wyddoniaeth.
238. Mae disgyblion yn datblygu'u medrau ymarferol yn dda. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n dda. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch mewn gwaith ymarferol ac mae nifer dda ohonynt yn dangos dealltwriaeth o'r defnydd o newidynnau ac o hanfodion prawf teg.
239. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymwybodol o gyfraniad gwyddoniaeth i fywyd bob dydd a'i effaith ar ddiwydiant a'r amgylchedd.

Diffygion

240. Mae nifer bach o ddisgyblion yn anfodlon cynnig atebion ar lafar ac yn cael trafferth i ddwyn i gof wybodaeth flaenorol; o ganlyniad maent yn colli diddordeb yn eu gwaith.

Cyfnod Allweddol 4

Nodweddion rhagorol

241. Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol ar draws y cyfnod allweddol ac adlewyrchir hyn yn eu canlyniadau arholiadau allanol.
242. Mae wybodaeth ffeithiol a dealltwriaeth ragorol o bob agwedd o wyddoniaeth gan y disgyblion.
243. Mae disgyblion yn cyflawni gwaith ymarferol yn ddiogel a gofalus. Maent yn ymwybodol o hanfodion prawf teg. Mae nifer fawr yn cwblhau ymchwiliadau o safon uchel ar gyfer cwblhau gwaith cwrs.

Nodweddion da

244. Mae mwyafrif y disgyblion yn frwdfrydig ac yn ymateb yn dda i'w tasgau. Mae'r disgyblion hyn yn hyderus wrth iddynt ysgrifennu atebion i ddangos eu gwybodaeth am gysyniadau gwyddonol allweddol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd. Mae'r mwyafrif yn cynnal eu diddordeb drwy'r amser.
245. Mae nifer dda o ddisgyblion yn gwybod sut i archwilio rhai materion moesol sy'n deillio o wyddoniaeth.

Diffygion

246. Mae nifer fach o ddisgyblion yn gwneud eu gwaith yn oddefgar.

Chweched Dosbarth

Nodweddion da

247. Mae'r myfyrwyr yn gallu dwyn i gof, dewis a defnyddio cysyniadau, gwybodaeth a thechnegau gwyddonol i safon dda. (Mae hyn oll yn rhagoriaeth mewn cemeg)
248. Gall y myfyrwyr arfarnu data a gwybodaeth wyddonol yn gywir. Defnyddiant dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i wneud hyn yn effeithiol.
249. Mae'r myfyrwyr yn cwblhau gwaith ymarferol yn hyderus ac yn dangos ymagweddiadau cyfrifol tuag at ddiogelwch. Gallant ragfynegi deilliannau mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd drwy edrych ar batrymau a defnyddio gwybodaeth flaenorol.
250. Mae'r myfyrwyr yn dadansoddi a datrys problemau gwyddonol i safon dda.
251. Mae'r mwyafrif y myfyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu gwaith ac yn gallu arfarnu gwaith myfyrwyr eraill. Mae ffeiliau gwaith y mwyafrif yn gynhwysfawr ac yn adnodd gwerthfawr iddynt.
252. Mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr yn gwneud cynnydd da o gyfnod allweddol 4 i'r lefel uwch gyfrannol ac yna ymlaen i ofynion lefel uwch.

Diffygion

253. Nid yw gallu'r myfyrwyr i ymchwilio ac i ddefnyddio ffynonellau wedi datblygu'n llawn fel eu bod yn ymwybodol o gyfraniad y gwyddorau i fywyd bob dydd.
254. Nid oes gan leiafrif o'r myfyrwyr wybodaeth na dealltwriaeth gadarn o egwyddorion gwyddonol. Mae hyn yn amharu ar eu cynnydd pan wynebant sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd.

Daearyddiaeth

Cyfnod Allweddol 3 Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Cyfnod Allweddol 4 Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Y Chweched Dosbarth Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 3

Nodweddion da

255. Mae gan fwyafrif y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd. Mae'u gwybodaeth o effeithiau digwyddiadau eithafol yn dda fel y gwelir yn eu hastudiaeth o'r corwynt a drawodd dde ddwyrain Lloegr yn 1987. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o ffurfiant corwyntoedd.
256. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth a gwybodaeth dda o batrymau ymsefydlu. Gallant gymhwyso'r patrymau hyn i fannau go iawn yn yr ardal leol trwy ddefnyddio map ordnans.
257. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o berthnasedd daearyddiaeth i faterion economaidd a chymdeithasol. Mae'u hastudiaeth o fudiad ym Mecsico yn rhoi dealltwriaeth gadarn iddynt o ffactorau 'gwthio a thynnu' fel y'u cânt eu cymhwyso i ymfudiad rhydd poblogaeth.
258. Mae disgyblion yn dangos gwybodaeth dda o le. Mae'u gwaith ar yr ardal leol, Mecsico a lleoliad gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan Peldroed y Byd mewn perthynas â Chymru ar fap o'r byd yn atgyfnerthu'u gwybodaeth o leoliad manau.

Diffygion

259. Nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn deall rhai agweddau o'u gwaith.
260. Nid oes gan nifer arwyddocaol o'r disgyblion afael ddigonol ar rai termau daearyddol a ddefnyddiant yn eu hastudiaethau.
261. Nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn ymroi i'w hastudiaethau'n gyson trwy'r wers.

Cyfnod Allweddol 4

Nodweddion da

262. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion afael dda ar batrymau a phrosesau daearyddiaeth ffisegol. Maent yn deall y camau yn natblygiad dyffrynnoedd afonydd a gallant labelu hydbroffil afon yn gywir. Mae'u gwybodaeth o erydu a phrosesau cludiant yn dda.

263. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion wybodaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng nwyddau archeb is-werth ac uwch-werth. Maent yn darparu enghreifftiau cadarn o nwyddau sydd yn cael eu dosbarthu i'r naill categori neu'r llall.
264. Mae disgyblion yn deall bod gwahanol fathau o siopau'n cael eu lleoli mewn gwahanol rannau o ardaloedd trefol. Gallant enwi'r rhannau a'r math o leoliad adwerthu sy'n gysylltiedig â hwy. Deallant fod gan siopau amrywiol gylchoedd dylanwad a gallant roi rhesymau am y gwahaniaethau. Mae dealltwriaeth y disgyblion o batrymau a phrosesau mewn daearyddiaeth ddynol yn dda.
265. Mae medrau ymchwilio, dadansoddi a chofnodi'n dda. Mae'r disgyblion yn dangos y medrau hyn yn arbennig o dda wrth gwblhau gwaith cwrs a wnaed trwy astudiaeth maes yn yr ardal leol.
266. Mae cymhwysedd y disgyblion mewn amrediad o fedrau daearyddol yn dda. Defnyddia'r disgyblion fapiau, diagramau a llyfrynnau gwybodaeth yn hyderus.

Diffygion

267. Mae gwaith nifer o ddisgyblion yn arddangos diffyg manylder. Mae peth gwaith anorffenedig.
268. Mae nifer arwyddocaol o'r disgyblion yn cael anhawster mewn deall a chofio termau daearyddol.
269. Nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn canolbwyntio ac o ganlyniad nid ydynt yn cyflawni gwaith o'r safon angenrheidiol.

Y Chweched Dosbarth

Nodweddion da

270. Mae gan y myfyrwyr ddealltwriaeth dda o olyniaeth planhigion. Mae'u gwybodaeth o wahanol fathau o olyniaeth yn dda. Maent yn deall sut mae gweithgareddau dynol yn tarfu ar olyniaeth planhigion.
271. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn arddangos gafael dda ar amrediad eang o dechnegau ystadegol, sgiliau map a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ymchwilio, dadansoddi a chofnodi canfyddiadau'u gwaith cwrs.
272. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn arddangos dealltwriaeth gadarn o gysyniad datblygiad. Maent yn ymwybodol o anghyfartaledd yn natblygiad y byd. Mae'u gwybodaeth o ddisbarthiad gwledydd datblygedig a rhai sydd wrthi'n datblygu'n dda.
273. Meddant ar ddealltwriaeth dda o ddangosyddion datblygiad megis y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a'r Mynegrif Datblygiad Dynol. Maent yn disgrifio ac egluro'r gwahaniaethau yn natblygiad patrymau mewn rhestr ddethol o wledydd gyda gradd uchel o gywirdeb.

274. Mae gan fwyafrif y myfyrwyr afael dda ar dermau daearyddol. Defnyddiant yr eirfa'n briodol a chywir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd,
275. Yn gyffredinol, mae ffeiliau wedi'u trefnu'n dda gyda nodiadau, diagramau a mapiau ar amrywiol agweddau'u cwrs wedi'u cyflwyno'n dda.

Diffygion

276. Mae rhai agweddau o waith a gwblhawyd yn dangos diffyg manylder a dyfnder mewn ymateb i dasgau gosod.

Celf

Cyfnod Allweddol 3 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4 Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Y Chweched Dosbarth Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4

Nodweddion da

277. Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol gyda chymhelliad da ac yn arddangos meistrolaeth gadarn ar iaith weledol llinell, arlliw, lliw, patrwm, gwead, siâp a gofod wrth drafod eu gwaith eu hunain.
278. Mae disgyblion yn deall egwyddor cymysgu lliwiau a sut y mae modd defnyddio gwahanol liwiau i gyfleu gwahanol hwyliau neu awyrgylch. Gallant gyfeirio at arlunwyr oedd yn dewis gweithio gydag amrediad arbennig o liwiau, gan gynnwys Gwen John.
279. Mae disgyblion yn llwyddiannus wrth ymchwilio i ddulliau o gyfleu symudiad mewn prosiect sy'n cyrraedd ei uchafbwynt wrth greu cartwnau a symudion.
280. Mae disgyblion yn ymateb yn ddychmygus i waith arlunwyr megis William Morris, Richard Wilson a Victor Vasarely wrth ddatblygu'u cyfansoddiadau eu hunain.
281. Mae disgyblion yn gynyddol yn datblygu'u dealltwriaeth o gelf berthnasol i amrywiaeth o gyfnodau, diwylliannau a chyd-destunau, yn cynnwys celf optegol, masgiau Affricanaidd a chelf y stryd. Maent yn tynnu ar eu gwybodaeth o'r traddodiadau hyn wrth greu eu cyfansoddiadau eu hunain.
282. Defnyddiant dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol wrth ymgymryd ag ymchwil i waith arlunwyr enwog ac wrth gyflwyno'u canfyddiadau.
283. Mae disgyblion yn ymchwilio i a datblygu medrau gwneud effeithiol fel gwneud marciau, braslunio arsylwadol, peintio, *collage* a gwneud printiadau wrth ymgymryd ag amrediad o brosiectau sy'n cynnwys y dechneg arloesol o wneud marciau ar lechen.
284. Yn gynyddol, mae disgyblion yn defnyddio'u llyfrau braslunio i ddatblygu'u medrau arlunio trwy arsylwi.

Diffygion

285. Nid yw gallu disgyblion i gofnodi delweddau a throi syniadau'n ddarluniau gweledol o'r cof, y teimladau neu'r dychymyg wedi datblygu'n ddigonol yng nghyfnod allweddol 3 na chyfnod allweddol 4.

286. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae defnydd disgyblion o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel cyfrwng i ddatblygu syniadau a thrin delweddau'n gyfyngedig.
287. Nid yw disgyblion yn astudio na gwneud arteffactau mewn cerameg.
288. Ym mlwyddyn 10, mae nifer o ddisgyblion yn tangyflawni. Maent yn cael trafferth i gadw'r cyflymder cynnydd disgwylidig ac yn colli diddordeb yn eu gwaith yn hawdd.
289. Ym mlwyddyn 11, mae nifer bychan o ddisgyblion sydd o allu canolig neu is yn tangyflawni. Nid ydynt yn sicr o'u cyfeiriad a'r disgwyliadau arnynt wrth ddatblygu eu themâu a'u pynciau unigol.

Y Chweched Dosbarth

Nodweddion da

290. Mae gan fyfyrwyr gymhelliant da ac yn aml gweithiant yn annibynnol mewn cyfnodau neu wersi nad ydynt ar yr amserlen ffurfiol mewn rhannau ar wahân o'r stiwdio. Defnyddiant amrediad o adnoddau a defnyddiau'n fedrus i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o iaith weledol celf.
291. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u llyfrau braslunio i gasglu a chofnodi deunyddiau sydd â nodweddion gweledol neu wead gwahanol.
292. Mae myfyrwyr yn fedrus wrth ddewis a defnyddio amrediad o ddeunyddiau wrth ddatblygu'u cyfansoddiadau.
293. Mae'r myfyrwyr yn hyderus wrth arbrofi gyda lliw a ffurf a thra ydynt yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o iaith weledol celf.
294. Maent yn ymgorffori ffotograffiaeth ddigidol i'w gwaith mewn modd creadigol.

Diffyg

295. Nid yw defnydd y myfyrwyr o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel cyfrwng i ddatblygu syniadau a thrin delweddau wedi datblygu'n ddigonol.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 3 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 4 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Y Chweched Dosbarth Gradd 2:Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Cyfnod Allweddol 3

Nodweddion da

296. Mae mwyafrif y disgyblion ym mlwyddyn 7 ac 8 yn canu'n dda, gan eirio'n glir. Gallant ganu deulais a chynnal tŷn gron mewn pedwar rhan. Mae ansawdd y sain yn dda ar y cyfan, a gwnânt ddefnydd da o weithgareddau ymgynhesu er mwyn sicrhau ystum cywir ac anadlu da.
297. Mae mwyafrif y disgyblion yn perfformio amrywiaeth o gerddoriaeth yn dda ar ystod o offerynnau taro, allweddellau, ac ar offerynnau eu hunain. Mae'r disgyblion yn rhoi pwyslais ar dechneg gywir, a gall nifer ohonynt ddefnyddio techneg dwy law. Mae nifer hefyd yn perfformio'n rhugl, yn rhwydd ac yn gerddorol.
298. Gall y disgyblion gyfansoddi amrywiaeth o gyfansoddiadau ar gyfer ystod o offerynnau a'r llais. Gallant hefyd ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol i wneud hynny. Mae disgyblion blwyddyn 9 yn creu alawon byrfyfyr effeithiol dros ben sy'n gwneud defnydd da o rythm a thraw.
299. Mae gan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r elfennau cerddorol, a gallant wahaniaethu o fewn yr elfennau wrth wrando ar gerddoriaeth. Gwnânt ddefnydd da o derminoleg gywir wrth ateb ar lafar ac yn ysgrifenedig, a gallant hunan arfarnu eu gwaith a gosod targedau ar gyfer gwella'r safon.

Diffygion

300. Nid oes digon o amrywiaeth ac ansawdd yn y sain wrth i'r disgyblion ganu.
301. Mae safon, amrywiaeth a diddordeb y cyfansoddiadau yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg annibyniaeth ar ran y disgyblion.

Cyfnod Allweddol 4

Nodweddion da

302. Mae mwyafrif y disgyblion yn berfformwyr da. Gallant berfformio'n hyderus fel unawdwyr ac o fewn ensemble neu gerddorfa dosbarth.
303. Maent yn creu ystod o gyfansoddiadau gwreiddiol, amrywiol, a diddorol. Gallant wneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

304. Wrth wrando ar ddarn o gerddoriaeth a'i werthuso, mae nifer o'r disgyblion yn gwahaniaethu'n dda o fewn yr elfennau cerddorol gan ddefnyddio terminoleg gywir.

Diffygion

305. Mae safon y gwerthuso'n fwy anwastad nag elfennau eraill y maes llafur.

Y Chweched Dosbarth.

Nodweddion da

306. Mae'r grŵp uwch gyfrannol yn berfformwyr dawnus ac yn perfformio'n hyderus fel ensemble dosbarth.
307. Mae cyfansoddiadau'r grŵp uwch gyfrannol yn dda, yn dangos dychymyg, ac yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
308. Wrth wrando ar gerddoriaeth mae'r holl fyfyrwyr yn dangos dealltwriaeth dda o'r elfennau cerddorol, ac o fanylder cerddorol o fewn darnau.

Diffygion

309. Mae rhai gwendidau yng ngwaith cyfansoddi a thraethodau'r grŵp safon uwch presennol.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Ni ddaeth Ymateb yr Ysgol i law cyn i'r adroddiad hwn fynd i'r wasg.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Brynrefail
Math o ysgol	Uwchradd, gymunedol, naturiol ddwyieithog
Ystod oedran y disgyblion	11-18
Cyfeiriad yr ysgol	Llanrug Gwynedd
Cod post	LL55 4AD
Rhif ffôn	01286 672381

Pennaeth	Mr Eifion Jones
Dyddiad penodi	1998
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mrs Ann P. Jones/ Awdurdod Unedig Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SH
Arolygydd cofnodol	Gareth Wyn Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	6-10 Tachwedd 2006

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B 10	B 11	B12	B 13	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	120	130	109	132	126	54	53	724

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	42	1 (0.5)	42.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau arbennig)	17.23
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	--
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	22.7
Cymhareb cyswllt cyffredinol (canran)	79.9%

Canran presenoldeb am y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad								
	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Ysgol Gyfan
Tymor y Nadolig 2005	94.5	91.7	90.9	90.8	90	91.3	85.1	91.2
Tymor y gwanwyn 2005	91.9	91.2	90.1	81.3	90.4	90.1	82.8	90.4
Tymor yr haf 2006	90.8	88.4	86.9	88.3	95.1	79.9	88.7	88.8

Canran y disgyblion gyda'r hawl i brydau ysgol am ddim	6
Nifer y disgyblion wedi'u gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	23 dros dro, 3 parhaol (dim un o leiafrifoedd ethnig)

Atodiad 3

Canlyniadau Asesu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Diwedd Cyfnod Allweddol 3:

Canlyniadau Aseidiadau CA3 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006															
Cyfanswm nifer y disgyblion yn B9: 128															
Canran y disgyblion ar bob lefel															
			N	D	F	W	1	2	3	4	5	6	7	8	EP
Saesneg	Asesiad	Ysgol	0	0	-	0	0	1	4	32	37	21	5	0	0
	athro	Cenedlaethol	1	0	-	0	0	2	8	21	35	24	8	0	0
Cymraeg	Asesiad	Ysgol	0	0	-	0	0	0	8	22	31	24	15	0	0
	athro	Cenedlaethol	1	0	-	0	0	1	4	19	35	30	10	0	0
Mathemateg	Asesiad	Ysgol	0	0	-	0	0	1	6	12	34	31	17		0
	athro	Cenedlaethol	1	0	0	0	0	1	6	18	24	32	15	0	0
Gwyddoniaeth	Asesiad	Ysgol	0	0	0	0	0	0	9	17	30	26	17	0	0
	athro	Cenedlaethol	1	0	0	0	0	0	6	19	33	27	12	0	0

- D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
- A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
- F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
- EP Perfformiad Eithriadol, lle mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn perfformio uwchlaw lefel 8

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf)			
yn ôl Asesiad Athro			
Yn yr ysgol	64	Yng Nghymru	56

Nid oedd profion cyfnod allweddol 3 yn statudol yn 2006 ac nid oedd rhaid i ysgolion adrodd ar y rhain i CBAC.

Canlyniadau Arholiadau Cyhoeddus:

Ar gyfer disgyblion 15 oed, canlyniadau mewn TGAU, Cymhwyster Lefel Mynediad, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2006	111
Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU neu CGCC fesul disgybl	46

Canran y disgyblion 15 oed yn 2006 a:	Ysgol	AU	Cymru
safodd 5 arholiad TGAU neu fwy neu gymhwyster cyfwerth	100	100	97
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i C, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	68	60	53
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i G, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	92	90	86
enillodd graddau A*-C TGAU mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf (y dangosydd pwnc craidd)	58	47	39
safodd o leiaf un cymhwyster lefel Mynediad, cwrs byr TGAU neu TGAU	100	100	97
enillodd un TGAU gradd TGAU A*-C neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	90	84	76
enillodd un TGAU gradd A*-G neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	100	98	93
heb ennill unrhyw radd TGAU neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	0	2	7
enillodd un cymhwyster lefel Mynediad neu fwy yn unig	0	2	3
enillodd Rhan 1 CGCC, CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1	-	-	-
enillodd Rhan 1 CGCC, CGCC ar lefel Canolradd neu CGC lefel 2	-	-	-

Ar gyfer disgyblion 17 a 18 oed, canlyniadau mewn Safon Uwch/UG, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 17 a 18 oed ym mis Ionawr 2006	48
Nifer y disgyblion a safodd 2 arholiad safon uwch TAG neu fwy neu gymwysterau cyfwerth	44
Nifer y disgyblion a safodd lai na 2 arholiad safon uwch TAG neu gymwysterau cyfwerth	4

	Ysgol	AU	Cymru
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-C	68	68	68
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-E	98	96	94
Cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd yn sefyll 2 neu fwy o bynciau	23	21	20
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2	-	-	-
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3	-	-	-

AU Awdurdod Unedol

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd 12 o arolygwyr gyfanswm o 40 diwrnod arolygu yn yr ysgol ac arsylwyd 93 o wersi neu ran ohonynt yn y chwe phwnc a oedd yn cael eu harolygu'n ffurfiol. Arolygwyd 38 gwrs neu ran o wers mewn pynciau eraill i gael tystiolaeth o safonau disgyblion yn y medrau allweddol a phersonol. Yn ychwanegol at hyn, ymwelwyd â thrawsdoriad o gyfnodau cofrestru, gweithgareddau allgyrsiol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl yr ysgol, ac addoliadau ar y cyd boreol. Trefnwyd cyfweiliadau gydag aelodau o'r uwch dîm rheoli, uwch penaethiaid adrannau a blwyddyn, ynghyd ag aelodau o staff, gan gynnwys staff cynorthwyol gyda chyfrifoldebau penodol.

Arolygwyd gwaith trawsdoriad o ddisgyblion galluog, canolig ac is eu gallu o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 a thrawsdoriad o waith myfyrwyr blwyddyn 12 a blwyddyn 13. Ar ben hyn, gwelwyd rhagor o waith disgyblion wrth ymweld â dosbarthiadau, gweithdai a labordai. Bu trafodaethau rheolaidd am eu gwaith gyda disgyblion a chafodd cyfweiliadau ffurfiol eu cynnal gyda disgyblion a myfyrwyr a gafodd eu dewis i gynrychioli blynyddoedd gwahanol, gan gynnwys aelodau o fforwm yr ysgol.

Cafodd pob dogfen a gyflwynodd yr ysgol cyn, ac yn ystod yr arolygiad, ei dadansoddi. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gydag aelodau o'r uwch dim arwain, y staff, y corff llywodraethol a rhieni. Daeth 24 i'r cyfarfod rhieni a dychwelwyd 95 o holiaduron. Daeth 4 llythyr a 6 sylw ar yr holiadur i law gan rieni a 10 llythyr gan fudiadau a sefydliadau yn y gymuned leol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Gareth W. Roberts Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun; Crynodeb; Argymhellion Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 1 Cyfrannu at gwestiynau allweddol 4 a 5 Atodiadau
William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at gwestiwn allweddol 3 a 7
Anna Roberts Arolygydd Tîm	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 2
Trefor Lewis Arolygydd Tîm	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 6 Cymraeg Iaith Gyntaf
Janet Hughes Arolygydd Tîm	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 4 Saesneg
Gwilym Williams Arolygydd Tîm	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 3, cyfrannu i gwestiwn allweddol 7 Gwyddoniaeth (cemeg)
Keith Davies Arolygydd Tîm	Cyfrifoli am gwestiwn allweddol 5 Cyfrannu at gwestiwn allweddol 7 Arwain y tîm gwyddoniaeth
Delyth Williams Arolygydd Tîm	Gwyddoniaeth (bioleg)
Huw Llewelyn Arolygydd Tîm	Daearyddiaeth
Graham Edwards Arolygydd Tîm	Celf
Emyr Wynne Jones Arolygydd Tîm	Cerddoriaeth
Gwyn Griffiths Arolygydd Tîm	Cyfrannu at gwestiwn allweddol 4
Mari Dalis	Asesydd cymheiriaid
Eifion Jones	Enwebai'r ysgol; pennaeth

Contractwr: Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i lywodraethwyr, staff a disgyblion Ysgol Brynrefail, Llanrug am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.